# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 9 MEHEFIN 2015 am 2.00 o'r gloch | TUESDAY, 9 JUNE, 2015 at 2:00 p.m. |
| SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

W.T.Hughes, Gwilym O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alwyn Rowlands

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/ The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Gwag/Vacant (Sector Uwchradd/ Secondary Sector)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cygnor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 24 CHWEFROR, 2015** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2015.

3 **MATERION YN CODI** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno er gwybodaeth yn unol â'r cais yn y cyfarfod blaenorol, gohebiaeth a anfonwyd i ysgolion gan yr Eglwys yng Nghymru.

4 **AROLYGIADAU YSGOLION** (Tudalennau 11 - 18)

- Cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas ag arolygiadau Estyn Gwanwyn, 2015.

- Cyflwyno adroddiad Adran 50 mewn perthynas ag Ysgol Parch. Thomas Ellis.

5 **YMWELIADAU ADDOLI AR Y CYD** (Tudalennau 19 - 32)

Trafod ymweliadau a wnaed a'r pro forma.

*(Dogfennaeth arweiniol gan Cymdeithas CYSAGau Cymru a chan Estyn ynglyn ag ysgolion anenwadol ynghlwm)*

6 **HUNAN ARFARNIAD YSGOL - YSGOL FFRWD WIN** (Tudalennau 33 - 54)

Cyflwyno adroddiadau hunan arfarnu AG gan Ysgol Ffrwd Win, Ysgol Parc y Bont, Ysgol Henblas and Ysgol Garreglefn.

7 **ADOLYGIAD DONALDSON O'R CWRICWLWM A THREFNAIADU ASESU YNG NGHYMRU**

Ymgynghorydd Her GwE i roi diweddariad.

8 **DEUNYDDIAU ENGHREIFFTIOL I DDATBLYGU LLYTHRENNEDD A RHIFEDD MEWN AG CA3**

Ymgynghorydd Her GwE i roi cyflwyniad ar "Chwaraewyr pêl droed Mwslimaidd yn yr Uwch Gynghrair" i ddangos sut y mae defnyddio deunyddiau enghreifftiol i ddatblygu llythrennedd a rhifedd mewn AG CA3.

9 **DATBLYGU GWAITH Y CYSAG** (Tudalennau 55 - 60)

Ymgynghorydd Her GwE i adrodd.

## 10 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

Ystyried/derbyn diweddariad ynglyn â’r isod –

- Enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith
- Cyfarfod y Gymdeithas ar 25 Mehefin, 2015 yn yr Wyddgrug, Sir Fflint.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL(CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Addysg**<br><br>Y Cynghorwyr W. T. Hughes, G. O. Jones, R. Llewelyn Jones, Alun Mummery<br><br>**Yr Enwadau Crefyddol**<br><br>Mr Rheinallt Thomas (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)<br>Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br><br>**Cynrychiolwyr Athrawon**<br><br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Llangaffo) |
| **WRTH LAW**: | Mr D. Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd)(Clerc i'r CYSAG)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her GwE) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r CYSAG ac yn arbennig felly i Mrs Manon Morris Williams a oedd yn bresennol yn ei chyfarfod cyntaf fel Aelod o'r CYSAG.

Cyfeiriodd y Cadeirydd gyda thristwch mawr at y brofedigaeth a ddaeth i ran yr Athro Euros Wyn Jones yn ddiweddar ar golli ei wraig. Estynnodd ei gydymdeimlad dwysaf ef ac Aelodau'r CYSAG gyda'r Athro Jones a'i deulu yn eu colled. Safodd yr holl Aelodau a Swyddogion mewn distawrwydd fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 HYDREF 2014**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2014 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3 MATERION YN CODI

3.1 Cafodd aelodau'r CYSAG ragor o wybodaeth gan Kirsty Williams o'r Eglwys yng Nghymru ynghylch bwriadau'r Eglwys mewn perthynas â chynnig cymorth sy'n gysylltiedig ag Addysg Grefyddol ar gyfer ysgolion yn dilyn cynnig a wnaed yn wreiddiol i'r cyfarfod o'r CYSAG a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014.

Cyfeiriodd Miss Williams at lythyr yr oedd bwriad i'w anfon at ysgolion uwchradd yr Ynys i ofyn iddynt pa gymorth y maent yn ei gael gyda dysgu Addysg Grefyddol a sut fath o gymorth fyddai'n ddefnyddiol iddynt. Dywedodd fod gan yr Eglwys swyddog sy'n ymweld ag ysgolion uwchradd i ddarparu rhywfaint o Addysg Grefyddol o enwad Cristnogol ond ei fod yn cyfuno'r swyddogaeth honno gydag addysg chwaraeon fel Cristion hefyd. Mae prosiectau yn digwydd yn y sector cynradd gan gynnwys y prosiect Llyfr Agored sy'n cyflwyno Addysg Grefyddol trwy ddrama. Esboniodd Miss Williams fod gan yr Eglwys yng Nghymru fwy o berthynas un i un gydag ysgolion cynradd ac er y bwriedir i'r llythyr fynd at yr ysgolion cynradd hefyd byddai'n well ganddi, oherwydd y berthynas gyfredol gyda nhw, pe cysylltid â nhw ar sail un i un i geisio sefydlu pa gymorth ychwanegol y byddent yn dymuno ei gael. Cyfeiriodd at ddau brosiect arall yr oedd yr Eglwys yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd gyda disgyblion Blwyddyn 6 - roedd un yn cynnwys sioe deithiol y gall disgyblion Blwyddyn 6 ei mynychu gyda thiwtoriaid cyswllt Blwyddyn 7 i'w cynorthwyo gyda'r pontio i'r ysgol uwchradd a'r llall yn brosiect lle cydweithir gyda sefydliadau eraill i ysgrifennu cwricwlwm blwyddyn o hyd ar symud ymlaen fel thema AG mewn ysgolion cynradd.

Er bod y CYSAG yn croesawu argaeledd yr adnodd gan yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer ysgolion, pwysleisiodd mai mater i'r ysgolion yn lleol yw penderfynu a fyddent yn manteisio ar gynnig yr Eglwys o gymorth ai peidio. Awgrymwyd a chytunwyd y dylid cynnwys yr ohebiaeth i ysgolion y cyfeiriwyd ati gan Miss Williams fel eitem er gwybodaeth ar raglen cyfarfod nesaf y CYSAG.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Swyddog Pwyllgor i gynnwys gohebiaeth yr Eglwys yng Nghymru i ysgolion ar y mater cymorth fel eitem er gwybodaeth ar raglen cyfarfod nesaf y CYSAG.**

3.2 Adroddodd Miss Bethan James, Ymgynghorydd Her GwE fel a ganlyn mewn perthynas â'r adolygiad o'r Cwricwlwm:

- Bod y Datganiad a wnaed gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru ac yr oedd copi ohono wedi ei ddarparu ar gyfer aelodau'r CYSAG, yn cyfeirio at drawsnewid datblygiad proffesiynol i hwyluso cyflawni'r cwricwlwm newydd a safonau uwch o fewn y dosbarth. Fodd bynnag, ni fydd Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer Athrawon AG oherwydd nad yw'n bwnc cwricwlwm cenedlaethol ac efallai y bydd yn rhaid rhoi sylw i ffyrdd eraill o ddarparu cymorth ar gyfer disgyblion AG yn lleol. Mae NAPFfRE eisoes wedi trafod nifer o fodelau y gellid eu mabwysiadu ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau.
- Bod y Datganiad yn crybwyll ei bod yn amserol cael "trafodaeth fawr" arall yn y byd addysg yng Nghymru ynghylch newid y cwricwlwm. Mae'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yn ddiweddarach o gryn dipyn na'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pynciau eraill ac felly mae'n fwy cyfredol. Y cyngor proffesiynol yw y dylid adolygu'r cwricwlwm bob 5 mlynedd fel ei fod yn adlewyrchu datblygiadau a'r gymdeithas y mae disgyblion yn byw ynddi. Mae'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol cyfredol yn rhoi pwyslais ar sgiliau AG a dealltwriaeth o gysyniadau a themâu - o gymharu â phynciau cwricwlwm eraill, mae'r Fframwaith AG yn ddrafft cyntaf ac mae angen gwneud mwy o waith o ran diffinio sgiliau AG. Gobeithir y bydd modd datblygu Maes Llafur Cytûn Lleol yn Ynys Môn sy'n adlewyrchu'r Cwricwlwm ac sy'n ymatebol i anghenion disgyblion.
- Mae'r Datganiad yn dweud bod tystiolaeth ryngwladol yn glir nad yw safonau uwch yn cael eu cyflawni o angenrheidrwydd trwy wario mwy, gan olygu y bydd disgwyliadau uwch ar athrawon ac ysgolion i fabwysiadu'r Cwricwlwm ar sail sgiliau, dysgu a phedagogiaeth yn hytrach na thrwy adnoddau ychwanegol.
- Mae Adolygiad yr Athro Graham Donaldson o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru a gyhoeddir ar 25 Chwefror wedi esgor ar nifer o ymatebion gyda rhai

ohonynt yn cefnogi AG ar y Cwricwlwm ysgol ac eraill yn erbyn. Bydd rownd arall o ymgynghori ar yr adroddiad a gyhoeddwyd.

Rhoddodd y CYSAG sylw i'r wybodaeth ac ystyriodd hefyd, gan ddibynnu ar yr amser a neilltuir ar gyfer yr ymgynghoriad diweddaraf, a fyddai angen efallai gynnull cyfarfod arbennig o'r CYSAG i ymateb i'r adroddiad Adolygiad Donaldson o gofio nad oes cyfarfod arall o'r pwyllgor wedi ei drefnu tan fis Mehefin. Cytunwyd i wneud hynny os byddai angen.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth ac, os oes angen, i gynnal cyfarfod arbennig o'r CYSAG i ymateb i'r adroddiad Donaldson.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

3.3 Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd ei fod wedi ysgrifennu, yn unol â dymuniadau'r CYSAG, at yr holl ysgolion y rhoddwyd sylw i'w hadroddiadau hunanwerthuso yn y cyfarfod diwethaf er mwyn cydnabod yr adroddiadau ac i ddiolch iddynt am y wybodaeth.

3.4 Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd fod yr Awdurdod Addysg Lleol wedi adnewyddu tanysgrifiad y CYSAG i Gymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer 2014 am ffi o £422.

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2013/14

Cyflwynwyd fersiwn swyddogol Adroddiad Blynyddol 2013/14 er gwybodaeth i'r CYSAG. Nodwyd bod y fersiwn ddrafft wedi ei thrafod yng nghyfarfod diwethaf y CYSAG ym mis Hydref 2014.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod ffurf yr adroddiad wedi newid i adlewyrchu cyfarwyddyd a gafwyd gan Lywodraeth Cymru o'i hadolygiad o adroddiadau blynyddol cyrff CYSAGau, a'r angen i CYSAGau werthuso eu heffeithiolrwydd fel cyrff ymgynghorol gyda throsolwg am Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Dywedodd y Swyddog ei fod yn anoddach i'r CYSAG, oherwydd pwysau ar Awdurdodau Lleol a diflaniad swydd yr Ymgynghorydd AG, i gael sicrwydd bod ei fewnbwn yn cael ei roi ar waith. O'r herwydd, mae'r CYSAG wedi meddwl sut y gall ymestyn ei gyfrifoldeb trwy ymgorffori argymhellion ar gyfer yr AALl ar ddiwedd pob rhan o'r adroddiad blynyddol. Mae'r rhain, yn eu tro, wedi eu trosi'n gynllun gweithredu sy'n cynnwys pedair blaenoriaeth ynghyd â phwyntiau gweithredu, tystiolaeth gefnogol ac amlinelliad o'r canlyniadau y disgwylir y bydd gweithredu'r blaenoriaethau yn eu cyflawni.

Rhoddodd y CYSAG sylw i'r Cynllun Gweithredu gan ganolbwyntio'n arbennig yn y drafodaeth ddilynol ar sut y byddai aelodau'r CYSAG, o dan y bedwaredd flaenoriaeth mewn perthynas â hyrwyddo addoli ar y cyd o safon dda, yn adrodd yn ôl ar eu hymweliadau i ysgolion i arsylwi arferion addoli ar y cyd a p'un a ddylid cyflwyno atborth yn llafar neu ar ffurf adroddiadau ysgrifenedig.

Dywedodd Ymgynghorydd Her GwE efallai y byddai'n rhaid gloywi dealltwriaeth yr Aelodau o'r hyn a olygir gan addoli ar y cyd o safon dda trwy gyfeirio at ganllawiau CYSAGau Cymru ar addoli ar y cyd ac y gellir ychwanegu at hynny trwy i'r Aelodau rannu eu profiadau o fewn y CYSAG. Byddai pro-fforma drafft hefyd yn ddefnyddiol i gofnodi bod ymweliad addoli ar y cyd wedi ei gynnal ond nid o angenrheidrwydd i adlewyrchu unrhyw farn.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelodau gynnal rhagor o ymweliadau addoli ar y cyd ag ysgolion cyn cyfarfod nesaf y CYSAG; cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd y byddai hynny ar sail wirfoddol h.y. byddai'r ysgolion yn cael gwahoddiad i fynegi diddordeb mewn gwadd ymweliad oni bai bod yna amgylchiadau lle mae aelod o'r CYSAG eisoes wedi sefydlu cysylltiad gydag ysgol e.e. fel llywodraethwr.

**Cytunwyd i nodi'r Adroddiad Blynyddol swyddogol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013/14.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI:**

- **Swyddog Addysg Gynradd/Swyddog Pwyllgor i gylchredeg Canllawiau CYSAGau Cymru ar Addoli ar y Cyd i ysgolion ac Aelodau'r CYSAG.**
- **Swyddog Addysg Gynradd i wahodd mynegiadau o ddiddordeb gan ysgolion ar gyfer ymweliad arsylwi addoli ar y cyd gan Aelod o'r CYSAG yn y cyfnod rhwng rŵan a mis Mehefin 2015.**



DRAFT

- **Ymgynghorydd Her GwE i ddrafftio pro-fforma ar gyfer cofnodi ymweliadau addoli ar y cyd gan aelodau'r CYSAG.**
- **Swyddog Pwyllgor i gynnwys eitem ar y rhaglen ynghylch addoli ar y cyd ar gyfer cyfarfod nesaf y CYSAG.**

**5 AROLYGIADAU YSGOL – HYDREF 2014**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Swyddog Addysg Gynradd yn crynhoi canfyddiadau perthnasol o adroddiadau Arolygiadau Estyn mewn perthynas ag Ysgol y Parch Thomas Ellis, Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Uwchradd Bodedern.

Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd nad oedd unrhyw faterion yn codi o'r adroddiadau a gyflwynwyd.

Atgoffwyd y CYSAG gan Mrs Manon Williams fod ysgolion eglwys hefyd yn destun arolygiadau ar wahân dan Adran 50 Deddf Addysg 2005 a bod tair ysgol eglwys wedi cael eu harolygu dan y trefniadau hynny.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i'r CYSAG gael copïau o'r adroddiadau arolygiad Adran 50.

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Swyddog Addysg Gynradd i drefnu i gopïau o'r adroddiadau arolygiad Adran 50 fod ar gael i Aelodau'r CYSAG lle cynhaliwyd y fath arolygiadau.**

**6 HUNANARFARNIAD YSGOLION**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiadau hunanarfarnu Addysg Grefyddol Ysgol Gynradd Llangoed ac Ysgol Santes Gwenfaen, Rhoscolyn.

Atgoffwyd y CYSAG gan yr Ymgynghorydd Her GwE, trwy gyflwyniad gweledol, o'r angen i adroddiadau hunanarfarnu ysgolion adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir gan Estyn i arfarnu perfformiad ysgolion yn eu hadroddiadau arolygu, a cheisiodd ddangos pa mor dda yr oedd yr adroddiadau hunanwerthuso a gyflwynwyd yn tynnu ar y gronfa o ymadroddion ansoddol a gwerthusol a ddefnyddir gan Estyn a lle gellid gwneud gwelliannau pellach.

Nododd y CYSAG y wybodaeth gan gydnabod gonestrwydd yr ysgolion yn cydnabod meysydd ar gyfer eu gwella. Cytunwyd ei fod yn briodol bod yr Ymgynghorydd Her GwE fel rhan o'i swydd, yn hytrach na'r CYSAG, yn rhoi atborth i'r ysgolion ynghylch gwelliannau y gellid eu gwneud i adroddiadau hunanarfarnu AG lle mae'n berthnasol.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiadau hunanarfarnu a nodi eu cynnwys a diolch i'r ysgolion dan sylw am drefnu iddynt fod ar gael i'r CYSAG.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**7 CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL 2014**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan yr Ymgynghorydd GwE a oedd yn rhoi dadansoddiad o gyraeddiadau a chanlyniadau arholiadau allanol Addysg Grefyddol ar gyfer Haf 2014.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod y canlyniadau'n adlewyrchu sefyllfa gyffredinol iach o ran Addysg Grefyddol mewn ysgolion yn Ynys Môn. Cyfeiriodd at yr argymhellion ar gyfer yr Awdurdod Lleol ar ddiwedd yr adroddiad a luniwyd fel rhan o rôl ymgynghorol CYSAG ac i gefnogi a galluogi athrawon i barhau i ddarparu Addysg Grefyddol dda yn ysgolion y sir.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Swyddog Addysg Gynradd i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r argymhellion.**

**8 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

8.1 Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r CYSAG wybodaeth ynghylch cyfarfodydd, gweithgareddau a sefyllfa ariannol Cymdeithas CYSAGau Cymru.

Dygodd yr Is-Gadeirydd sylw at faterion o ddiddordeb o'r cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014 ym Mhowys, gan gynnwys cyflwyniad NAPfRE ar drefniadau Consortia cyfredol ar gyfer cefnogi cyrff CYSAGau a'r amrywiadau ynddynt. Yn y



DRAFT

cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru yn Nhorfaen ar 26 Tachwedd 2014, cafodd y Gymdeithas ddiweddariad ar newidiadau mewn arholiadau AG yn ogystal â chyflwyniad ar ddata AG a'r hyn y gellir ei ddysgu ohono.

Mewn perthynas â'r adolygiad o'r Cwricwlwm, dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod gan y CYSAG gyfrifoldeb i ddatblygu Cwricwlwm Addysg Grefyddol ar gyfer ysgolion Ynys Môn a bod hynny wedi bod yn cael ei wneud ar y cyd gyda Gwynedd yn y gorffennol. Mae'r maes llafur cytûn cyfredol yn seiliedig ar y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ac mae dymuniad ar lefel broffesiynol i weld parhad fframwaith cenedlaethol a fabwysiedir yn lleol ac sy'n gwasanaethu fel maes llafur lleol. Er budd cysondeb cenedlaethol a datblygu adnoddau, dywedodd y Swyddog nad oedd yn credu y byddai athrawon yn dymuno gweld amrywiad yn Ynys Môn. Yn wyneb y ffaith y gall bod newidiadau i bynciau o ganlyniad i'r adolygiad o'r Cwricwlwm, efallai y bydd athrawon AG yn dymuno i AG adlewyrchu'r pynciau eraill. O'r herwydd, pwysir ar Lywodraeth Cymru i gynnwys Addysg Grefyddol mewn unrhyw drafodaethau a fydd yn digwydd fel bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer fforwm cenedlaethol ar AG hefyd os bydd unrhyw bynciau o'r Cwricwlwm yn cael eu trafod mewn grwpiau cenedlaethol.

8.2 Rhoddwyd sylw i gynnig enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru a swydd yr Is-Gadeirydd.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd wrth y CYSAG ei fod yn bwriadu sefyll i lawr fel Aelod o'r Pwyllgor Gwaith er ei fod yn bwriadu parhau i fynychu cyfarfodydd o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac felly roedd cyfle i CYSAG Ynys Môn enwebu rhywun arall i ymgymryd â'r swyddogaeth honno.

**Cytunwyd i enwebu Miss Bethan James am swydd Is-Gadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru a hefyd i wasanaethu ar Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Swyddog Addysg Gynradd i anfon y ffurflen enwebu at Gymdeithas CYSAGau Cymru.**

**9 UNRHYW FUSNES ARALL**

Ni thrafodwyd unrhyw fusnes arall.

**10 Y CYFARFOD NESAF**

Cytunwyd y dylid dwyn ymlaen ddyddiad cyfarfod nesaf y CYSAG o 16 Mehefin i ddydd Mawrth 9 Mehefin 2015.

**Y Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

PLANT CHILDREN
IEUENCTID YOUTH
TEULUOEDD FAMILIES

Kirsty Williams - Children's Youth and Family Ministry Enabler
Bangor Diocesan Centre, Cathedral Close, Bangor, LL57 1RL
kirstywilliams@churchinwales.org.uk / 07971 790669

# How Can the Church Support Your School?

The church have previously enjoyed significant relationships with schools across Wales, where support was given through morning services, education on Christian beliefs and general support for the staff and students alike. During recent years this relationship has dwindled, and some schools don't have any contact with a Church. Although we appreciate that some school structures don't require this, we would like to give each school the opportunity to build those relationships in a way that would benefit them.

I would like to provide a brief description on how the Church in Wales is changing.

*"In 2012 Lord Harris presented a report stating that the church is insignificant to young people. This statement stirred the church, to the answer of employing four full time experienced people to work with children, young people, and families. Each one works across the Diocese as well as having an area in which they are dedicated to. These areas are Anglesey, Bangor and surrounding area, LLyn Peninsula and North Merionydd, and South Merionydd. Within their roles they explore new and possible ways to engage the church with the community, through support, training, networking, and resourcing."*

*(Church in Wales, 2012)*

The Bishops commissioned a team of advisers in 2011 to conduct a root-and-branch review of the Church.
The three members of the team were:

- Lord Richard Harries, the former Bishop of Oxford, who chaired the group;
- Professor Charles Handy, former professor at the London Business School;
- Professor Patricia Peattie, former Chair of the Episcopal Church in Scotland's Standing Committee.

The 2012 a report was presented, making 50 recommendations which has been adopted by the Church in Wales. One of the many areas identified by the review was the present work with children, young people and families. Recommendation Xll states:

*"At least two trained full time workers, clergy or lay, should be appointed to work with young people in each of the present archdeaconries." (Church in Wales, 2012)*

Bangor Diocese have now employed 4 members of staff whose role is to enable the local churches to reach out and work with children, young people and families. As the four Children's, Youth and Family Ministry Enablers (CYFME's) have begun to work alongside the Churches they have identified, in many places, a significant lack of work alongside the local schools, particularly secondary schools.

They are, therefore, seeking ways in which the school would like support from the church. This may not be in the form of a vicar providing collective worship, but in many other ways such as educational visits, training for teachers, resources, chaplaincy and much more.

In order for the Churches to understand the needs of your school and meet these effectively we are asking if you could complete a short 10 minute questionnaire and to return it to Kirsty Williams, Diocesan Centre, Cathedral Close, Bangor, Gwynedd, LL57 1RL.

Thank you for your time and I hope to hear from you in the near future.

# How Can the Church Support Your School?

1) Does your school have contact with or a relationship with the Church in Wales?

   Yes                    No          *(Please circle)*

   If yes please describe what this looks like?

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

2) Are you aware of any resources that the Church could provide for schools e.g. educational packs, prayers spaces, Gsus bus?

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

3) Would your RE staff be interested in attending training sessions that would enable them to teach modules effectively any of the following (Please tick?

   Christian Belief? ❒

   The Meaning of Easter? ❒

   The Reason for Christmas? ❒

   Why do we believe what we believe? ❒

   Is there any other training that they might find useful?

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

   ___________________________________________________________________________

4) Do you use resource boxes for your themes?

If no would you find them useful? Yes No *(Please circle)*

If yes, from where do you source them?

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

5) Which of the following areas would you consider involving the Church to support you in, after further conversations between us. *(Please circle)*

Christian Union Prayer Spaces Voluntary work placements

Moving on day for: Year 6 Year 11 Year 13

Providing space for students to perform/exhibit

Mentoring

6) If you were to arrange an educational visit to one of our many historic churches, which elements would you want in the tour/session e.g. interaction, activities, mock services?

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

7) Is there anything else with which your school would like support?

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

If you would like to discuss the church supporting your school please don't hesitate to contact your Children Youth and Family Ministry Enabler; Kirsty Williams. 07971790669/kirstywilliams@churchinwales.org.uk

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adroddiadau Estyn Reports**

**GWANWYN 2015 SPRING.**

**Canolfan Addysg Y Bont. (Autumn 2014)**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae ganddi raglen addysg bersonol a chymdeithasol bwrpasol, sy'n rhoi pwyslais priodol ar gydberthynas a chadw'n ddiogel yn y gymuned. Mae'n darparu cyfleoedd symbylol yn rheolaidd ar gyfer myfyrio mewn gwasanaethau ysgol-gyfan. Er enghraifft, mae disgyblion yn myfyrio ar bwysigrwydd peidio â phoeni am bethau o'r gorffennol na allant eu newid.

*The school promotes pupils' social, moral, spiritual and cultural development effectively. It has a purposeful personal and social education programme, that places appropriate emphasis on relationships and keeping safe in the community. It provides stimulating opportunities regularly for reflection in whole-school assemblies. For example, pupils reflect on the importance of not worrying about things from the past that they cannot change.*

**Ysgol Llangoed**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu addas a diddorol i'r disgyblion. Caiff y gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi trwy ymweliadau preswyl a gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae sesiynau addoli ar y cyd, sesiynau amser cylch a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm yn hyrwyddo ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

*The school provides a wide range of suitable and interesting learning experiences for pupils. Learning activities are enriched through residential visits and extra-curricular activities. Provision meets the requirements of the Foundation Phase, the National Curriculum and religious education.*

*Collective worship sessions, circle time sessions and activities across the curriculum promote and contribute well to developing pupils' spiritual, moral, social and cultural awareness.*

**Ysgol Kingsland.**

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn cydweithio'n dda i gynllunio rhaglenni diddorol sy'n bodloni anghenion pob disgybl yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldeb a datblygu dealltwriaeth glir o fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn cymuned. Mae hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus yn rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys ei darpariaeth allgyrsiol da.

*Teachers and learning support assistants collaborate well to plan interesting programmes that meet the needs of all pupils successfully. The curriculum meets the requirements of the Foundation Phase, the National Curriculum and religious education*

*There are good opportunities for pupils to take on responsibility and to develop a clear understanding of living and working together in a community. The successful promotion of pupils' spiritual, moral and social development is an integral part of the school curriculum, including its good extra-curricular provision.*

**Ysgol Bodorgan**

Mae'r ysgol yn cynllunio er mwyn darparu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion statudol yn briodol.

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar lle mae'r staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel o ran moesoldeb a gofal. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, a diwylliannol yn gadarn. Mae gan staff yr ysgol berthynas gadarnhaol â'r disgyblion, sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth gytûn.

*The school plans for providing a curriculum that meets statutory requirements appropriately.*

*The school is a friendly and caring community in which staff promote high values in terms of morality and care. Provision for spiritual, moral, social and cultural development is sound. Staff at the school have a positive relationship with pupils, based on mutual respect and trust.*

## Adroddiad Arolygiad Gwella Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

**YSGOL Y PARCHEDIG THOMAS ELLIS**

Ffordd Treseifion, Caergybi, Ynys Môn, LL65 2AP

**Esgobaeth:** Bangor **Awdurdod Lleol:** Ynys Môn

**Dyddiadau'r Arolygiad:** 16 a 23 Hydref 2014 **Dyddiad yr arolygiad diwethaf:** Hydref 2008
**Rhif cyfeirnod unigryw'r Ysgol:** 660-3033 **Pennaeth:** Mrs. Alison Moncur-Jones
**Enw'r Arolygydd:** Y Parchedig Ganon Robert Townsend

### Cyd-destun yr ysgol

Ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru dan reolaeth wirfoddol yw Ysgol y Parchedig Thomas Ellis, sydd wedi darparu addysg grefyddol enwadol ers nifer sylweddol o flynyddoedd. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Ceir 107 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 15 o oed meithrin. Ar hyn o bryd, ni cheir unrhyw ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleifrifol ethnig. Mae oddeutu 42% o'r disgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol di-dâl, sy'n uwch na'r sir a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae pymtheg ar hugain y cant o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn ganolfan ar gyfer Uned Cybi – adnodd sy'n darparu ar gyfer grŵp o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sydd ag anghenion dysgu cymedrol – sy'n gwasanaethu ysgolion cynradd eraill yn nhref Caergybi a thu draw.

### Mae arbenigrwydd ac effeithiolrwydd Ysgol y Parchedig Thomas Ellis fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn ardderchog

Gweledigaeth yr ysgol yw darparu amgylchedd seiliedig ar werthoedd Cristnogol sy'n sicrhau bod pob disgybl yn ffynnu. Mae'n gwneud hyn, a mwy. Mae addoli'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r disgyblion, y staff a'r gymuned ehangach, gan eu datblygu'n ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Mae'r cysylltiadau agos â'r Eglwys leol, a feithrinwyd dros nifer o flynyddoedd, yn ychwanegu at arbenigrwydd ac effeithiolrwydd yr ysgol.

Mae staff yr ysgol yn dîm diffuant, a arweinir gan Bennaeth sy'n arwain ac yn cyfathrebu'n rymus, yn ogystal ag annog aelodau eraill o'r staff i dderbyn cyfrifoldeb a bod yn arweinwyr eu hunain.

### Cryfderau Sefydledig

- Cymeriad Cristnogol nodedig yr ysgol
- Datblygiad ac effaith 'Godly Play'.
- Lle canolog addoli ym mywyd yr ysgol, a'i gyfraniad at ddeilliannau'r disgyblion
- Darpariaeth Addysg Grefyddol yr ysgol
- Ethig tîm sy'n bodoli ymhysg aelodau o staff yr ysgol
- Yr arweinyddiaeth sydd wedi ei dosrannu o fewn y staff addysgu
- Arweinyddiaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig

### Ffocws ar gyfer Datblygu

- Datblygu ffyrdd o gofnodi tystiolaeth lafar o gyrhaeddiad disgyblion mewn Addysg Grefyddol
- Ysgrifennu estynedig o fewn Addysg Grefyddol
- Sicrhau mwy o gysylltiadau gydag ysgolion Eglwys yng Nghymru eraill i drafod a lledaenu'r arfer dda.

**Mae'r ysgol, drwy ei chymeriad Cristnogol arbennig, yn ardderchog am gyfarfod ag anghenion pob dysgwr**

Mae hon yn ysgol gynhwysol lle mae pob aelod o'r gymuned yn aelod gwerthfawr o dîm yr ysgol. Mae rhieni'n siarad yn uchel am yr ysgol lle maent yn teimlo y gwrandewir arnynt ac y cymerir eu pryderon o ddifrif.

Mae ethos Cristnogol yr ysgol yn amlwg i bawb ei ddirnad ac mae'n garreg sylfaen bywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn cymryd o ddifrif ei statws ysgol eglwysig ac mae ei hethos Cristnogol yn amlwg ym mhob rhan o'r ysgol. Arddangosir saith o werthoedd allweddol yr ysgol mewn mannau dysgu yn ogystal ag yn y coridorau a hyd yn oed ar glustogau ym mynedfa'r ysgol! Mae hyn yn cael effaith gref ar ddysgwyr fel y gwelir drwy'r ffordd y mae'r dysgwyr yn siarad am y gwerthoedd Cristnogol hyn ac yn eu mynegi, yn ogystal â'r ffordd y maent yn gofalu am ei gilydd ac yn foesgar a chroesawus tuag at ymwelwyr.

Mae'r dysgwyr yn hapus yn yr ysgol ac yn mwynhau mynychu ysgol y maent yn ymfalchïo ynddi. Maent yn gwrtais, yn hyderus ac yn frwdfrydig a cheir ymddygiad da a pharchus o amgylch yr ysgol. Mae cyngor yr ysgol wedi ei ffurfio o ddysgwyr o bob grŵp blwyddyn, ac yn cael ei fentora gan aelod o'r staff. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n effeithio arnynt hwy a'u hysgol. Mae'n ddiweddar wedi dyfeisio ei holiadur ei hun ar gyfer cyd-ddisgyblion. Mae hefyd yn ystyried anghenion pobl yn y byd ehangach a sut y gallent eu cefnogi drwy eu gweithgareddau elusennol. Mae cysylltiad cryf yr ysgol ag Uganda yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion a'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r ysgol yn darparu gofal bugeiliol ardderchog ac mae ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer y rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn eu dysgu gydag nodweddion ardderchog. Mae Uned Cybi yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer deilliannau'r disgyblion a'r ysgol.

Mae canlyniadau o gyfundrefn olrhain integredig yr ysgol - yn seiliedig ar asesiadau athro, INCERTS, profion cenedlaethol a phrofion mewnol - yn dangos bod y disgyblion i gyd yn gwneud cynnydd da yn eu targedau personol ac yn adeiladu ar gyrhaeddiad blaenorol. Cyflawnir hyn drwy wybodaeth glir o'r disgyblion a'u hanghenion yn ogystal â'r berthynas ddisgybl-staff ardderchog.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn cynnig seintwar a thawelwch lle gall pawb ddatblygu'n ysbrydol. Mae mannau tawel a myfyriol wedi eu creu yn yr awyr agored a than do a pharheir i ddatblygu'r rhain.

Mae gwerthoedd yr ysgol o ofalu, gonestrwydd, cydweithredu, parch, tegwch ac ymroddiad i gyflawni'n cael eu byw drwy gydol bywyd yr ysgol. Maent yn cyfrannu at wneud yr ysgol yn noddfa i bawb mewn ardal o amddifadedd a heriau cymdeithasol.

Mae'r eglwys leol a'i chymuned yn rhan gyfunol o fywyd dyddiol yr ysgol.

**Mae effaith cydaddoli ar y gymuned ysgol yn ardderchog**

Mae cydaddoli dyddiol yn bwysig ym mywyd yr ysgol yn darparu profiad cadarnhaol i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr, gan ei fod wrth galon bywyd yr ysgol ac wedi ei wreiddio yng ngwerthoedd Cristnogol yr ysgol.

Mae'r disgyblion, ynghyd â staff a chlerigion lleol yn cynllunio ac yn cyflwyno addoli. Mae'r disgyblion yn barod i wirfoddoli i gymryd rhan mewn addoli.

Mae arfarnu rheolaidd yn digwydd ac mae'r ysgol yn adnabod yr angen i'r gymuned ysgol gyfan arfarnu addoli.

Mae rhieni'n adnabod bod gan addoli effaith gadarnhaol ac ysbrydoledig ar ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion, gan adnabod adegau myfyriol sy'n effeithio ar feddwl a gweithredu dydd i ddydd y disgyblion. Mae'r materion moesol a godir mewn cydaddoli yn sicrhau bod gan y disgyblion werthfawrogiad cryf o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd.

Rhennir gweddïau dosbarth cyn cinio ac ar ddiwedd pob dydd. Gwelir gwerth uchel mewn pwysigrwydd gweddi gan y disgyblion a'r rhieni, ac mae'r disgyblion yn hyderus wrth fynegi eu credoau ysbrydol. Pan ofynnir iddynt am yr Iesu, mae'r disgyblion yn siarad amdano'n glir, ac mae'r disgyblion hŷn yn gallu dweud wrthych beth y mae'n ei olygu iddynt.

Mae addoli ysgol-gyfan bob amser yn dechrau gyda litwrgi ymatebol ac mae'r allor yn bwynt ffocws hanfodol, nid yn unig ar gyfer addoli, ond ar gyfer y gymuned ysgol gyfan. Mae'r disgyblion yn adnabod symbolau Cristnogol ac yn parchu traddodiadau'r Eglwys.

Mae'r cyswllt ardderchog rhwng yr eglwys a'r ysgol yn sicrhau y cedwir lle pwysig gweddi gan y gymuned ysgol gyfan.

Mae Staff yr ysgol yn adnabod pwysigrwydd addoli a'i effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae'r Staff yn gyson yn gwneud y sylw bod profiad cyffredin addoli yn cyfrannu at amgylchedd gwaith tîm cynhyrchiol y maent yn rhan ohono, a bod hynny yn ei dro'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a'u deilliannau.

**Mae effeithiolrwydd yr addysg grefyddol yn dda**

Mae Ysgol y Parchedig Thomas Ellis wedi addysgu Addysg Grefyddol yn defnyddio maes llafur yr Eglwys yng Nghymru ers llawer o flynyddoedd ac mae hyn yn ychwanegu at gymeriad Cristnogol yr ysgol.

Mae i Addysg Grefyddol le o bwysigrwydd uchel fel pwnc craidd yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae'n cael ei harwain ar y cyd gan 3 athro/athrawes, sy'n gweithio fel tîm i sicrhau dilyniant drwy'r ysgol, mewn meysydd megis sgiliau er enghraifft. Mae tystiolaeth o gofnodion asesu'r ysgol yn dangos bod y safonau cyffredinol a gyflawnir gan y plant yn y pwnc hwn yn dda. Mae hyn yn ganlyniad cynllunio cadarn a gweithdrefnau asesu.

Mae'r Staff wedi cydio'n gadarn yn yr hyn sydd ei angen i sicrhau datblygiad da parhaus mewn AG. Gallant arddangos yn glir sut y maent yn defnyddio'r gyfundrefn o olrhain cynnydd disgyblion i lywio camau nesaf y cynllunio.

Mae'r Staff hefyd yn ymwybodol – yn arbennig gyda disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol – nad yw tystiolaeth lafar bwysig o gyrhaeddiad disgyblion yn cael ei dal yn briodol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n well mewn AG o'u cymharu â phynciau eraill.

Yn ystod yr arolygiad arsylwyd ar bedair gwers. Roedd pob un o leiaf yn dda gyda rhai elfennau da iawn.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i ddatblygu 'Godly Play', ac mae ardderchowgrwydd i'w weld pan fo'r cwricwlwm AG yn defnyddio 'Godly Play'. Nid yn unig y mae disgyblion yn ennill gwybodaeth ffeithiol dda o storïau Beiblaidd, ond mae ganddynt le i fyfyrio arnynt ac ar y gwerthoedd y maent yn eu cynnig ac yna'n ymateb iddynt mewn amrywiol ffyrdd. Roedd peth o fyfyrdod tawel y dysgwyr cyn iddynt rannu'r 'pryd' yn deimladwy amlwg, a hyd yn oed yn fwy felly oherwydd pan ofynnir i ddisgyblion amdano, gallant fynegi'r hyn yr oeddent yn ei feddwl, yr hyn y mae'n ei olygu iddynt a pham y mae'n bwysig.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn amlygu meysydd AG y mae'n ceisio eu gwella, megis ysgrifennu estynedig ac yn sicrhau dull trawsgwricwlaidd tuag at AG.

**Mae effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig yn ardderchog**

Mae ymroddiad y Pennaeth a'i dealltwriaeth ardderchog o arbenigwydd ysgol eglwysig a'i chymuned ysgol yn golygu bod yr ysgol wedi cynnal ei chymeriad Cristnogol arbennig ac mae gan hyn ystyr a phwrpas i bob aelod o gymuned yr ysgol.

Mae arweinyddiaeth ddosbarthedig yn nodwedd o'r ysgol – gyda staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu eu sgiliau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gofynnwyd i'r ysgol arddangos a datblygu'r defnydd o 'Godly Play' mewn ysgolion lleol eraill.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn yn eu lle mewn meysydd megis diogelu ac adnabod angenion dysgu ychwanegol a chefnogaeth angenrheidiol.

Mae Llywodraethwyr yn gallu rhoi llais i'r cymeriad Cristnogol arbennig ac maent yn effeithiol fel cyfeillion beirniadol yr ysgol fel ysgol Eglwysig. Bu'r gymuned ysgol gyfan yn ymwneud â'r broses o hunan-arfarnu'r ysgol fel ysgol Eglwysig. Mae hyn yn bwydo i mewn i hunan-arfarniad yr ysgol a datblygu dogfennau.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos iawn gyda'i Hardal Weinidogaethol newydd, yn ogystal â'r Esgobaeth. Mae clerigion yn ogystal ag aelodau o gymuned yr ysgol yn adnabyddus yn yr ysgol ac yn gwneud cyfraniad pwysig i fywyd yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Mae'r ysgol yn cyfarfod â'r gofynion statudol ar gyfer gweithredoedd o gydaddoli** | **Ydyw** |
| **Mae'r ysgol yn cyfarfod â'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol** | **Ydyw** |

# Gwella Inspection of Church in Wales Schools Report

**YSGOL Y PARCHEDIG THOMAS ELLIS**

Ffordd Treseifion, Holyhead, Isle of Anglesey, LL65 2AP

**Diocese:** Bangor **Local authority:** Isle of Anglesey

**Dates of inspection:** 16 and 23 October 2014 **Date of last inspection:** Hydref 2008
**School's unique reference number:** 660-3033 **Headteacher:** Mrs. Alison Moncur-Jones
**Inspector's name:** The Rev'd Canon Robert Townsend

## School context

Ysgol y Parchedig Thomas Ellis, is a Church in Wales voluntary controlled primary school, which has taught denominational religious education for a significant number of years. It provides education for pupils aged between three and 11. There are 107 pupils on roll, including 15 of nursery age. At present, there are no pupils from homes where Welsh is the main language of communication. Very few pupils are from an ethnic minority background. About 42% of pupils are eligible for free school meals, which is higher than the county and national average for Wales. Thirty-five per cent of pupils are on the school's additional learning needs register. The school is also the base for Uned Cybi - a resource that provides for a group of key stage 2 pupils who have moderate learning needs - which serves other primary schools in the town of Holyhead and beyond.

## The distinctiveness and effectiveness of Ysgol y Parchedig Thomas Ellis as a Church in Wales school are excellent

The School's vision is to provide an environment based on Christian values which ensures that each pupil thrives. It does this, and more. Worship makes a significant contribution to the pupils, staff and the wider community, developing them spirituality, morally, socially and culturally.

The close links with the local Church, built up over many years, enhance the distinctiveness and effectiveness of the school.

The school's staff are a genuine team, lead by a Headteacher who leads and communicates with vigour, as well as encouraging other staff members to take responsibility and become leaders themselves.

## Established strengths

- The distinctive Christian character of the school
- The development and impact of Godly Play
- The central place of worship in the school's life, and its contribution to pupils' outcomes
- The schools' Religious Education provision
- The team ethic that exists with all members of the school's staff
- The distributed leadership within the teaching staff
- The leadership of the school as a Church school

## Focus for development

- Develop ways of recording verbal evidence of pupils' attainment in RE
- Extended writing within Religious Education
- Ensure more links with other Church in Wales schools to discuss and disseminate good practice.

**The school, through its distinctive Christian character, is excellent at meeting the needs of all learners**

This is an inclusive school where every member of the community is a valued member of the school team. Parents speak highly of the school where they feel that they are listened to and their concerns are taken seriously.

The Christian ethos of the school is obvious for all to discern and is the foundation stone of school life. The school values and takes seriously its church school status and its Christian ethos is evident in every part of the school. The school's seven key values are displayed in learning spaces as well as in the corridors and even on cushions in the school's entrance hall! This has a strong impact on learners as seen through the way learners talk about and express these Christian values, as well as the way in which they care for each other and are polite and welcoming to visitors.

Learners are happy at school and enjoy attending a school of which they are proud. They are courteous, confident and enthusiastic and there is good and respectful behaviour around the school. The school council is made up of learners from every year group, is mentored by a member of staff. It meets regularly to discuss issues which affect them and their school. It has recently devised its own questionnaire for fellow pupils. It also considers the needs of people in the wider world and how they might support them through their charitable activities. The school's strong link with Uganda has a positive impact on the pupils and their understanding of global citizenship.

The school provides excellent pastoral care and the school's provision for those who need additional support in their learning has excellent features. Uned Cybi is an invaluable resource for the school and pupils outcomes.

Results from the school's integrated tracking system - based on teacher assessment, INCERTS, national tests and internal tests - shows that all pupils make good progress in their personal targets and build upon previous attainment. This is achieved through a clear knowledge of the pupils and their needs as well as the excellent pupil-staff relationships.

The school building and grounds offer a place of sanctuary and calm where all can develop spiritually. Quiet and reflective areas have been created outdoors and indoors and these continue to be developed.

The school's values of caring, honesty, cooperation, respect, fairness and commitment to achieve are lived throughout the life of the school. They contribute to making the school a haven for all in an area of social deprevation and challenges.

The local church and its community is an integral part of the daily life of the school.

**The impact of collective worship on the school community is excellent**

Daily collective worship is important in the life of the school providing an affirming experience for pupils, staff and visitors, being at the heart of school life and grounded in the school's Christian values.

Pupils, along with staff and local clergy plan and deliver worship. Pupils willingly volunteer to take part in worship.

Regular evaluation takes place and the school recognises the need for the whole school community to evaluate worship.

Parents recognise worship has a positive and inspiring effect on the spiritual and moral development of pupils, identifying reflective times impacting on the day to day thinking and action of pupils. The moral issues raised in collective worship ensure pupils have a strong appreciation of the difference between right and wrong and take responsibility for their actions.

Class prayers are shared before lunch and at the conclusion of each day. The importance of prayer is highly valued by pupils and parents, and pupils are confident when expressing their spiritual beliefs. When asked about Jesus, pupils talk about him clearly, and older pupils are able to tell you what he means to them.

Whole school worship always begins with a responsive liturgy and the altar is an essential focal point, not only for worship, but for the whole school community. Pupils recognise Christian symbols and respect the traditions of the Church.

The excellent link between church and school ensures that the important place of prayer is maintained

by the whole school community.

The school's Staff recognise the importance of worship and its positive effect on their wellbeing. Staff consistently remark that the common experience of worship contributes to the productive teamwork environment of which they are a part, and that this in turn has a positive effect on pupils and their outcomes.

**The effectiveness of the religious education is good**

Ysgol y Parchedig Thomas Ellis has taught Religious Education using the Church in Wales syllabus for many years and this enhances the Christian character of the school.

Religious Education occupies a place of high importance as a core subject in the school's curriculum. It is lead jointly by 3 teachers, who work as a team to ensure progression throughout the school, in areas such as skills for example. Evidence from the school's assessment records shows that overall standards achieved by the children in this subject are good. This is the result of sound planning and assessment procedures.

Staff have firmly grasped what is needed to ensure continued good development in RE. They can clearly demonstrate how they are using the system of tracking the progress of individual pupils to inform the next stages of planning.

Staff are also aware that – particularly with pupils with additional learning needs – important verbal evidence of pupils' attainment is not being captured properly. Evidence suggests that pupils with additional learning needs achieve better in RE when compared to other subjects.

During the inspection four lessons were observed. All were at least good with some very good elements.

The school has worked hard to develop Godly Play, and excellence is to be seen when the RE curriculum uses Godly Play. Not only do pupils gain a good factual knowledge of Bible stories, but they have space to reflect on them and the values they offer and then respond to them in a variety of ways. Some of the learners' silent reflection before they shared the 'meal' was palpably moving, and even more so because when learners are asked about it, they can express what they we thinking, what it means to them and why it is important.

The schools' development plan highlights areas of RE which it seeks to improve, such as extended writing and ensuring a cross-curricular approach to RE.

**The effectiveness of the leadership and management of the school as a church school is excellent**

The headteacher's commitment and excellent understanding of church school distinctiveness and her school community means that the school has maintained its distictive Christian character and this has meaning and purpose for all members of the school community.

Distributed leadership is a feature of the school – with staff being supported and encouraged to develop their skills. This means, for example, that the school has been asked to demonstrate and develop the use of Godly Play in other local schools

The school has robust processes in place in areas such as safeguarding and identifying additional learning needs and necessary support.

Governors are able to articulate this distinctive Christian character and are effective as critical friends of the school as a Church school. The whole school community has been involved in the process of self-evaluation of the school as a Church school. This feeds in to the school's self-evaluation and developemnt documentation.

The school has very close links with its new Ministry Area, as well as the Diocese. Clergy as well as members of the church community are well known in the school and make an important contribution to school life.

| | |
|---|---|
| **The school meets the statutory requirement for collective acts of worship** | **Yes** |
| **The school meets the statutory requirement for religious education** | **Yes** |

# CANLLAWIAU YNGLŶN AG ADDOLI AR Y CYD
## CYMDEITHAS CYSAG'AU CYMRU

**Mehefin 2012**

**CYFLWYNIAD**
Mae gweithredoedd addoli ar y cyd mewn ysgol yn addysgol ystyrlon pan fyddant yn darparu cyfleoedd i drafod anghenion yr holl ddysgwyr, beth bynnag fo'u ffydd neu gefndir credo. Mae addoli ar y cyd da'n hybu datblygiad ysbrydol, yn cyfrannu at ddatblygiad personol, yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan, yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach, ac yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Mae rhai o'r ffactorau sy'n sail i addoli ar y cyd effeithiol yn cynnwys:

- datblygu polisi ysgol cydlynol a dull cydlynol o addoli ar y cyd, gydag ymrwymiad gweithredol yr uwch reolwyr;
- creu 'perchenogaeth' gyfunol dros raglen addoli ar y cyd yr ysgol, ar ran y staff, y dysgwyr a'r llywodraethwyr;
- sicrhau bod disgwyliadau clir ymysg y staff ynglŷn â'u cyfraniadau at addoli ar y cyd;
- cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymwneud yn weithredol ag addoli ar y cyd;
- gwneud addoli ar y cyd yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol drwy adlewyrchu, wrth gynllunio, ei berthnasedd a'i gysylltiadau â phob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- darparu cyfleoedd i staff am ddatblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn caniatáu adfyfyrio beirniadol ar y ddarpariaeth o addoli ar y cyd yn yr ysgol, ac yn ei gwella.

Er mwyn datblygu addoli ar y cyd sy'n addysgol ystyrlon ac yn effeithiol, mae'n bwysig gwerthfawrogi buddion addoli ar y cyd a bod yn gyfarwydd â'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag addoli ar y cyd.

**GWERTHFAWROGI BUDDION ADDOLI AR Y CYD**
Byddai'n ddefnyddiol i ysgolion drafod sut mae addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol, yn cyfrannu at ddatblygiad personol, yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan, yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach, ac yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**(a) Mae addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol**
Mae gan ysgolion ddyletswydd i hybu datblygiad ysbrydol dysgwyr.[1] Mae addoli ar y cyd effeithiol yn galluogi ysgol i gyfrannu at gyflawni'r gofyniad statudol hwn. Mae'n bwysig deall **nad** yw datblygiad ysbrydol neu ysbrydolrwydd yn gyfystyr â bod yn grefyddol, ond ei fod yn hytrach yn ymwneud â'r broses o ddatblygu gwerthfawrogiad dysgwyr o ddimensiynau ysbrydol bywyd ac ystyriaethau ehangach ystyr, pwrpas a chyflawniad. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn darparu amser arbennig sydd ar wahân i weithgareddau cyffredin yr ysgol;
- yn ategu profiadau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o'u safle yn y darlun cyffredinol;
- yn datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- yn datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- yn trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth.

[1] Deddf Diwygio Addysg 1988, Rhan 1 (2)(a)(b); Deddf Diwygio Addysg 2002, Adran 99 (1)(a)(b)



© Cymdeithas CYSAGauCymru 2012

**(b) Mae addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddatblygiad personol**

Mae gan ysgolion ddyletswydd i hybu datblygiad personol dysgwyr.[2] Mae addoli ar y cyd effeithiol yn galluogi ysgol i gyfrannu at gyflawni'r gofyniad statudol hwn. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn cyfrannu at iechyd a chyfanrwydd, ac at ddeallusrwydd emosiynol;
- yn hybu myfyrio ar deimladau mewnol a chredoau;
- yn datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- yn hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill;
- yn cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- yn meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg, drwy feddwl am ‘godau moesol, cydberthnasau, cyfrifoldeb, parch at amrywiaeth, temtasiwn, grym yr hunan, aberth a chariad’[3].

**(c) Mae addoli ar y cyd yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan**

Mae addoli ar y cyd effeithiol yn darparu buddion ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- yn cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned;
- yn darparu cyfleoedd i ddathlu llwyddiannau'r ysgol a chyfraniad unigolion at y llwyddiannau hynny;
- yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gredoau a gwerthoedd pobl eraill yng nghymuned yr ysgol;
- yn darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau ‘hapus’ a ‘thrist’ sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol, ac i’w rhannu;
- yn cyfrannu at ethos ysgol sy'n ategu cyrhaeddiad addysgol yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u cefndir, drwy ddatblygu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd.

**(ch) Mae addoli ar y cyd yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach**

Disgwylir i ysgolion ystyried sut y maent yn ategu ac yn hybu cydlyniant cymunedol, a dylid cydnabod bod addoli ar y cyd yn cynnig cyfraniad gwerthfawr ar lefel ysgol ac ar lefel y gymuned leol ehangach. Mae addoli ar y cyd effeithiol yn creu cysylltau rhwng cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn defnyddio amrywiaeth o gynrychiolwyr addas o’r gymuned leol, sydd wedi eu dethol yn ofalus, i gyfrannu at addoli ar y cyd;
- yn cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned leol ehangach;
- yn darparu cyfleoedd i ddathlu llwyddiannau'r gymuned leol a chyfraniad grwpiau ac unigolion at y llwyddiannau hynny;
- yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gredoau a gwerthoedd pobl eraill yn y gymuned leol;
- yn ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach;
- yn darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau ‘hapus’ a ‘thrist’ sy'n effeithio ar y gymuned leol, a’u rhannu.

**(d) Mae addoli ar y cyd yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang**

Mae addoli ar y cyd effeithiol yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. Dylai staff a dysgwyr werthfawrogi'r ffaith fod gweithredoedd addoli ar y cyd:

---

[2] Deddf Diwygio Addysg 1988, Rhan 1 (2)(a)(b); Deddf Diwygio Addysg 2002, Adran 99 (1)(a)(b)

[3] Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i bobl ifanc 3 i 19 oed yng Nghymru, 2008, tud. 10



© Cymdeithas CYSAGauCymru 2012

- yn defnyddio amrywiaeth o ddeunydd sydd wedi ei ddethol yn ofalus i hybu ymwybyddiaeth fyd-eang;
- yn cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned fyd-eang;
- yn darparu cyfleoedd i ddathlu digwyddiadau byd-eang a llwyddiannau dynol;
- yn datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang;
- yn cynnig cyfleoedd i fyfyrio ar argyfyngau byd-eang a dioddefaint dynol, ac i'w rhannu.

Mae gan yr ysgol gyfan lawer i'w hennill o weithredoedd addoli ar y cyd sy'n addysgol ystyrlon ac yn effeithiol, ac mae gan aelodau'r ysgol (a'r gymuned leol) lawer i'w gynnig drwy gyflwyniadau a chyfraniadau eraill at weithredoedd addoli ar y cyd. Yn ymarferol, dylai ysgolion ystyried sut y gellir ymgorffori'r buddion hyn yn eu rhaglen ar gyfer addoli ar y cyd, a sut y gall cymuned yr ysgol gyfan fod yn 'berchen' cyfunol arnynt.

**ADDOLI AR Y CYD A'R GYFRAITH**

Mae'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng 'ysgolion â chymeriad crefyddol' ac ysgolion eraill nad ydynt â chymeriad crefyddol (Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998). Mae 'ysgolion â chymeriad crefyddol' yn rhai sydd â chyswllt ag un neu ragor o enwadau crefyddol, neu â ffydd fyd-eang o bwys, yn rhinwedd eu sefydlu neu drwy benderfyniad cyfreithiol-rwym penodol i ddod yn ysgol o'r fath. Mae AdAS yn cadw rhestr o ysgolion o'r fath yng Nghymru.

**(a) Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud mewn gwirionedd am addoli mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth ac sydd HEB gymeriad crefyddol**

- Mae gofyniad statudol ar ysgolion i ddarparu gweithred **ddyddiol** o addoli ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr;
- Mae hyn yn ofyniad bod **pob dysgwr** yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithred addoli ar y cyd **bob dydd**;
- Mae darpariaeth yn bodoli i ddysgwyr gael eu tynnu'n ôl o weithredoedd addoli ar y cyd, ar gais rhieni;
- Mae darpariaeth hefyd i athrawon dynnu'n ôl o gynnal gweithredoedd addoli ar y cyd;
- Dylai mwyafrif y gweithredoedd addoli ar y cyd mewn tymor a blwyddyn ysgol fod 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol eang', ac na ddylent, mewn ysgolion a gynhelir, fod yn gysylltiedig ag unrhyw un enwad yn unig;
- Dylai mwyafrif y gweithredoedd addoli ar y cyd gynnwys elfennau sy'n ymwneud â thraddodiadau o gredo Gristnogol;
- Dylai addoli yng nghyd-destun ysgol fod yn addoli ar y cyd (*collective*) yn hytrach na chyd-addoli (*corporate)*;[4]
- Ni ddylai gweithredoedd addoli ar y cyd gael eu derbyn yn oddefol — mae ymateb yn ofynnol;
- Mae rheidrwydd, mewn ysgolion a gynhelir, i weithredoedd addoli ar y cyd ddigwydd ar dir yr ysgol;
- Mae gan ysgolion yr hawl i 'Ddyfarniad' / 'Penderfyniad' — hynny yw, i gael eu rhyddhau o'r gofynion i weithredoedd addoli fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol eang, os gallai cyfansoddiad yr ysgol ofyn rhyddhad o'r fath (rhaid i geisiadau gael eu gwneud i'r CYSAG lleol);
- Mae gweithredoedd addoli'n wahanol i 'gynulliad' — sydd mewn gwirionedd, yn ôl y gyfraith, yn unrhyw gynulliad o'r ysgol ***heblaw*** addoli ar y cyd;
- Gall dysgwyr ôl-16, ers Ionawr 2009, ofyn drostynt eu hunain am gael tynnu'n ôl o addoli ar y cyd.[5]

[4] Mae 'addoli ar y cyd' yn golygu dod a phobl o wahanol agweddau a dealltwriaethau at ei gilydd, tra fo 'cyd addoli' yn golygu dod a rhai gyda'r un agwedd neu ddealltwriaeth at ei gilydd.
[5] Anfonodd CCYSAGauC, mewn cydgysylltiad ag APADGOS, arweiniad ynglŷn â'r newid hwn yn y ddeddfwriaeth i bob ysgol yn 2009.



© Cymdeithas CYSAGauCymru 2012

**(b) Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud mewn gwirionedd am addoli mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth ac SYDD â chymeriad crefyddol**

- Mae gofyniad statudol ar ysgolion i ddarparu gweithred **ddyddiol** o addoli ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr;
- Mae hyn yn ofyniad bod **pob dysgwr** yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithred addoli ar y cyd **bob dydd**;
- Mae darpariaeth yn bodoli i ddysgwyr gael eu tynnu'n ôl o weithredoedd addoli ar y cyd, ar gais rhieni;
- Mae darpariaeth hefyd i athrawon dynnu'n ôl o gynnal gweithredoedd addoli ar y cyd; fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau ar yr hawl hon mewn ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir;
- Bydd y gweithredoedd addoli'n adlewyrchu cymeriad crefyddol yr ysgol;
- Mae'r gweithredoedd addoli ar y cyd yn debygol o gynnwys deunydd sy'n defnyddio arferion addoli a thraddodiadau'r ffydd neu enwad penodol y mae'r ysgol yn gysylltiedig ag ef neu hi;
- Dylai addoli fod yn addoli ar y cyd (*collective*), nid cyd-addoli (*corporate)*;
- Ni ddylai gweithredoedd addoli ar y cyd gael eu derbyn yn oddefol — mae ymateb yn ofynnol;
- Gall ysgolion ddefnyddio addoldy lleol ar gyfer rhai o'i gweithredoedd addoli pan fo hynny'n briodol;
- Nid oes gan ysgolion yr hawl i ddyfarniad / penderfyniad;
- Mae gweithredoedd addoli'n wahanol i 'gynulliad' — sydd mewn gwirionedd, yn ôl y gyfraith, yn unrhyw gynulliad o'r ysgol ***heblaw*** addoli ar y cyd;
- Gall dysgwyr ôl-16, ers Ionawr 2009, ofyn drostynt eu hunain am gael tynnu'n ôl o addoli ar y cyd.[6]

**(c) Yr hyn nad yw'r gyfraith yn ei ddweud**

Yn aml ceir dryswch ynglŷn ag addoli ar y cyd, ac mae'n bwysig gwybod beth sydd **ddim** yn ofynnol gan y gyfraith:

- i'r **ysgol gyfan** fod gyda'i gilydd ar gyfer addoli ar y cyd
  *[Mae'r gofyniad yn ymwneud ag unrhyw gynulliad o ddysgwyr a ddewisir gan yr ysgol, ar wahân i grwpiau sy'n seiliedig ar gysylltiad crefyddol]*
- bod gweithredoedd addoli ar y cyd i ddigwydd **ar ddechrau'r ysgol** yn y bore
  *[Mater i bob ysgol ei benderfynu yw amseriad addoli ar y cyd yn y diwrnod ysgol]*
- **hyd** datganedig ar gyfer gweithredoedd addoli ar y cyd
  *[Mater i'r ysgol yw hyd gweithredoedd addoli ar y cyd, ond ni ddylai leihau oriau disgwyliedig y diwrnod cwricwlwm].*

**CAMAU GWEITHREDU DICHONOL**

Bydd ysgolion sydd o ddifrif ynglŷn â darparu addoli ar y cyd sy'n addysgol ystyrlon ac yn effeithiol:

- yn sefydlu egwyddorion, polisïau a rhaglenni clir fel sail i weithredoedd addoli ar y cyd;
- yn creu ymdeimlad cyfunol o 'berchenogaeth' dros addoli ar y cyd;
- yn canfod cyllid ar gyfer darparu hyfforddiant i staff, neu sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol, efallai drwy gonsortiwm lleol.

*Bydd astudiaethau achos sy'n enghreifftio arfer da, ac adnoddau defnyddiol ychwanegol, ar gael ar wefan CCYSAGauC: www.wasacre.org.uk*

[6] Anfonodd CCYSAGauC, mewn cydgysylltiad ag APADGOS, arweiniad ynglŷn â'r newid hwn yn y ddeddfwriaeth i bob ysgol yn 2009.



© Cymdeithas CYSAGauCymru 2012

Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol

## Medi 2013

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Beth yw diben yr arweiniad hwn?**

I roi arweiniad wedi'i ddiweddaru i arolygwyr ar arfarnu addoli ar y cyd pan fydd yn drywydd ymholi.

**Ar gyfer pwy y'i bwriadwyd?**

Pob arolygydd ysgolion a gynhelir.

**Pryd dylai'r arweiniad ddechrau cael ei ddefnyddio?**

O Fedi 2010.

## Cynnwys — Tudalen


| | |
|---|---|
| **Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **1** |
| **Beth yw addoli ar y cyd?** | **2** |
| **Sut dylem arolygu ac adrodd am addoli ar y cyd?** | **3** |
| **Cwestiynau cyffredin** | **4** |

## Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd?

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 a Chylchlythyr 10/94 Swyddfa Cymru yn pennu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion yng Nghymru.  Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir ar wahân i ysgolion arbennig.  Nid yw'r gofynion yn berthnasol i golegau addysg bellach neu ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion babanod neu gynradd.

Mae Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994 yn pennu'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion arbennig.

Mae Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 yn pennu'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion annibynnol (ac arbennig gan amlaf) ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu rhoi yno gan awdurdod addysg lleol.

Dyma'r gofynion:

- rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd bob dydd i bob disgybl cofrestredig;
- dylai'r rhan fwyaf o weithredoedd addoli ar y cyd ym mhob tymor ddilyn patrwm Cristnogol yn bennaf neu'n gyfan gwbl.  Hynny yw, dylent adlewyrchu traddodiadau cyffredinol y gred Gristnogol heb gadw at arferion unrhyw enwad Cristnogol yn benodol,
- gall addoli ar y cyd gael ei gynnal unrhyw bryd yn ystod diwrnod yr ysgol;
- gall addoli ar y cyd gael ei ddarparu i ddisgyblion beth bynnag fo maint y grŵp, er enghraifft, fel dosbarth, blwyddyn ysgol, grŵp cyfnod neu gymuned gyfan yr ysgol; a
- dylai addoli ar y cyd ystyried cefndir teulu, oed a gallu'r disgyblion dan sylw.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu addoli ar y cyd i ddisgyblion o dan bump oed.

Gall rhiant gyflwyno cais i esgusodi eu plentyn o addoli ar y cyd ac mae'n rhaid i ysgolion gytuno i geisiadau o'r fath.  Nid oes rhaid i rieni roi rhesymau.  Rhaid i ddisgyblion sy'n cael eu hesgusodi gael eu goruchwylio gan yr ysgol.  Gall yr ysgol, gyda sêl bendith y rhieni, roi trefniadau amgen i addoli ar y cyd ar gyfer un neu fwy o ddisgyblion sydd wedi'u hesgusodi, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny.  Dylai prosbectws yr ysgol gyfeirio at hawl y rhieni i gyflwyno cais i esgusodi eu plentyn o addoli ar y cyd ac amlinellu'r trefniadau ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hesgusodi.

Mae Mesur Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi'r hawl i ddisgyblion y chweched dosbarth esgusodi eu hunain o addoli ar y cyd.  Daeth y ddeddfwriaeth hon i rym yng Nghymru yn Chwefror 2009.

Mae gan athrawon yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn addoli ar y cyd.  Fodd bynnag, rhaid i'r ysgol sicrhau bod addoli ar y cyd yn parhau i gael ei ddarparu bob dydd i ddisgyblion.

## Beth yw addoli ar y cyd?

Nid yw addoli wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth.  Mae'r arweiniad i ysgolion yng nghylchlythyr 10/94 Swyddfa Cymru yn cynnwys y diffiniad canlynol:

> **Rhaid iddo, mewn rhyw ystyr, adlewyrchu rhywbeth arbennig neu ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol a dylai fod yn ymwneud â pharchu neu fawrygu bod neu bŵer dwyfol.**

Bydd addoli mewn ysgol yn wahanol i addoli ymysg grŵp o bobl sy'n credu yn yr un peth.  Mae hyn yn cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth drwy'r cyfeiriad at addoli 'ar y cyd' yn hytrach nag addoli 'corfforaethol'.

Mae nod addoli ar y cyd mewn ysgolion wedi'i ddisgrifio yng nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig:

> **Dylai addoli ar y cyd mewn ysgolion geisio rhoi'r cyfle i ddisgyblion addoli Duw, ystyried y materion ysbrydol a moesol yn ogystal ag ystyried eu credoau eu hunain.  Dylai hefyd eu hannog i gymryd rhan ac ymateb, boed drwy gymryd rhan flaenllaw yn yr addoliad neu wrando, gwylio ac ymuno yn yr addoliad a gynigir.  Dylai hyn hefyd feithrin ysbryd cymunedol, hyrwyddo ethos cyffredin a gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.**

Mae addoli ar y cyd yn wahanol i wasanaeth boreol.  Er bod y ddau'n cael eu cynnal ar yr un pryd, dylai'r gwahaniaeth rhyngddynt fod yn eglur.

Mae sawl ffordd o addoli ar y cyd mewn ysgolion.  Gall disgyblion ei arwain yn rhannol neu'n gyfan gwbl.  Mae rhai o gydrannau priodol addoli ar y cyd wedi'u nodi yn y blwch isod, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr.  Gall addoli ar y cyd gynnwys un neu sawl un o'r cydrannau hyn.

- **Myfyrio** – gall disgyblion gael eu hannog i wrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad priodol, fel darlleniad o'r Beibl neu waith llenyddol crefyddol arall, rhan o ddrama, dawns, fideo, cân, darn o gerddoriaeth, arteffact, pennill, stori, erthygl newyddion, ffotograff, llun, gweddi, cwestiwn, defod, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- **Gweddi** – gall disgyblion gael eu hannog i weddïo'n uchel gyda'i gilydd neu weddïo'n unigol yn dawel.
- **Cân** – gall disgyblion gael eu hannog i ganu emyn neu gân addoli arall gyda'i gilydd.
- **Darlleniad** – gall disgyblion gael eu hannog i ddarllen dyfyniad o'r Beibl neu waith waith llenyddol crefyddol arall, neu 'funud i feddwl'.

Gall disgyblion drafod ysgogiad wrth addoli ar y cyd, ond ni ddylai trafodaeth gael ei hystyried yn addoli ynddi hun.  Yn yr un modd, nid oes rhaid i addoli ar y cyd gynnwys y cyfle i drafod.

## Sut dylem arolygu ac adrodd am addoli ar y cyd?

Dylai arolygwyr arolygu addoli ar y cyd ym mhob ysgol nad ydynt yn darparu addysg enwadol. Dylent ystyried addoli ar y cyd yn ôl ei rinwedd ei hun ac yng nghyd-destun cynllunio dros gyfnod o amser. O ran y gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd, dim ond yr achosion lle **nad** yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r rhain y dylid sôn amdanynt.

Wrth farnu dangosydd ansawdd 2.3 ('Gofal, cymorth ac arweiniad'), bydd arolygwyr yn ystyried ansawdd addoli ar y cyd ac a yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol. Dylai arolygwyr ystyried ysbryd yn ogystal â manylion y gyfraith wrth arolygu addoli ar y cyd. Ni ddylai tramgwyddau bychain neu achlysurol arwain at farnu nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

Hyd yn oes os nad yw addoli ar y cyd mewn ysgol yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, gall wneud cyfraniad arwyddocaol o hyd at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Ar y llaw arall, mae'n bosibl cael addoli ar y cyd sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol, ac eto prin yw ei gyfraniad tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Mae mwy i addoli ar y cyd na bod y disgyblion yn bresennol ynddo yn unig. Rhaid i'r arolygwyr sicrhau bod y sawl sy'n arwain yr addoliad o leiaf yn paratoi'r disgyblion yn briodol ac yn eu hannog i wrando, gwylio a myfyrio ar yr addoliad sy'n cael ei gynnig. Gall barnu a yw disgyblion yn gwrando, yn gwylio neu'n myfyrio ar addoliad fod yn dalcen caled, felly hwyrach y bydd angen i arolygwyr fodloni eu hunain bod yr ysgol wedi gwneud ymdrech resymol i roi'r cyfle i addoli ar y cyd.

Ni ddylai arolygwyr:

- wneud nodiadau yn ystod gwasanaeth addoli ar y cyd;
- amseru hyd y gwasanaeth addoli ar y cyd – nid oes isafswm amser wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth na'r arweiniad;
- gadael i'w barn bersonol am addoli ar y cyd neu grefydd effeithio ar eu barn; a
- teimlo bod yn rhaid iddynt gymryd rhan gan mai yno i arsylwi addoli ar y cyd y maent.

## Cwestiynau cyffredin

### 1 A ddylai disgyblion blygu eu pennau neu gau eu llygaid yn ystod gweddi?

Eu dewis personol nhw yw plygu eu pennau neu gau eu llygaid yn ystod gweddi.  Os yw'r disgyblion yn penderfynu peidio, ni ddylai arolygwyr gymryd yn ganiataol eu bod yn dangos diffyg difrifoldeb neu barch ac ni ddylent ychwaith ddod i'r casgliad bod yr addoli ar y cyd wedi methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol oherwydd hynny.

### 2 A ddylai disgyblion ddweud 'amen' ar ddiwedd gweddi?

Eu dewis personol nhw yw cytuno â'r weddi neu ddweud 'amen' yn uchel ai peidio.  Os yw'r disgyblion yn penderfynu peidio, ni ddylai arolygwyr gymryd yn ganiataol eu bod yn dangos diffyg difrifoldeb neu barch ac ni ddylent ychwaith ddod i'r casgliad bod yr addoli ar y cyd wedi methu â bodloni'r gofynion cyfrreithiol oherwydd hynny.

### 3 A ddylai'r disgyblion gael eu gorfodi i ganu emynau neu ganeuon mawl?

Eu dewis personol nhw yw canu emynau neu ganeuon mawl ai peidio.  Mae'r gyfraith yn mynnu bod ysgolion yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion addoli.  Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod ysgolion yn gorfodi disgyblion i addoli.

### 4 Ni chafwyd cyfeiriad at y ffydd Gristnogol o gwbl yn ystod addoliad ar y cyd gan ysgol gyfan - a yw hyn yn dderbyniol?

Mae'r gyfraith yn nodi y dylai'r rhan fwyaf o wasanaethau addoli ar y cyd ym mhob tymor 'fod o natur Gristnogol yn bennaf neu'n gyfan gwbl'.  Felly, o bryd i'w gilydd mae'n dderbyniol i addoli ar y cyd fod heb gysylltiad clir â'r ffydd Gristnogol.  Dylai arolygwyr wirio cofnod yr ysgol o themâu diweddar addoli ar y cyd i weld a yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r gyfraith ai peidio.

### 5 Mae ysgol gynradd yn honni nad yw'n gallu darparu addoli ar y cyd ddau ddiwrnod o'r wythnos gan nad yw'r neuadd ar gael.  A yw hyn yn dderbyniol?

Nac ydyw.  Nid yw hyn yn dderbyniol gan nad yw'r disgyblion yn gorfod dod ynghyd yn y neuadd i addoli ar y cyd.  Os nad yw'r ysgol ar gael ddau ddiwrnod o'r wythnos, dylai'r ysgol wneud trefniadau i ddarparu addoli ar y cyd mewn grwpiau llai mewn ystafelloedd eraill.

### 6 Darllenodd athro/athrawes destun ar gyfer 'munud i feddwl' i grŵp dosbarth mewn ysgol uwchradd a gofynnodd i'r disgyblion fyfyrio amdano am funud.  Roedd rhai disgyblion yn chwarae cardiau tra bo hyn yn cael ei gynnal – a yw hyn yn dderbyniol?

Nac ydyw.  Nid yw'n dderbyniol oherwydd dylai'r athro/athrawes gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y disgyblion yn gwrando'n ofalus ar y 'munud i feddwl' a'u bod yn dawel ac yn llonydd yn ystod yr amser myfyrio.  Fodd bynnag, byddai angen i arolygwyr ystyried ai eithriad oedd y digwyddiad hwn cyn penderfynu a yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn gyffredinol.

**7 Nid yw arolygydd yn sicr a yw'r addoli ar y cyd mewn grŵp dosbarth ysgol uwchradd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol – beth yw'r farn?**

Oni bai bod arolygydd yn hyderus nad yw'r ysgol yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion addoli, dylai farnu bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.

**8 Nid yw athro/athrawes grŵp dosbarth mewn ysgol uwchradd yn cytuno ag addoli ar y cyd ac nid yw'n rhoi cyfle i ddisgyblion addoli pan nad ydynt mewn gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn neu'r ysgol gyfan. A yw hyn yn golygu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol?**

Er bod gan athrawon yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn addoli ar y cyd, rhaid i'r ysgol ddarparu addoli ar y cyd o hyd i ddisgyblion yn y dosbarth hwn. Os nad yw'r ysgol yn gwneud trefniadau eraill ar gyfer y dosbarth hwn fel arfer, byddai hynny'n arwain at farnu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol.

**9 Yn ystod arolygiad ysgol uwchradd, nid yw athro llanw/athrawes lanw ar gyfer grŵp dosbarth yn darparu addoli ar y cyd i ddisgyblion. A yw hyn yn golygu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol?**

Hwyrach nad yw'n bosibl i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd bob amser oherwydd prinder staff neu resymau eraill fel prinder ystafelloedd mawr. Felly, dylai arolygwyr ystyried y ddarpariaeth dros gyfnod o flwyddyn yn hytrach na diwrnod yr arsylwi yn unig. Nid ddylai methu â darparu ar gyfer addoli ar y cyd ar un diwrnod arwain at farnu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol.

**10 Oes rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd i ddisgyblion y chweched dosbarth?**

Nac oes, gan fod Mesur Addysg ac Arolygiadau 2006 yn caniatáu i ddisgyblion y chweched dosbarth esgusodi eu hunain o addoli ar y cyd. Daeth y ddeddfwriaeth hon i rym yng Nghymru yn Chwefror 2009.

**11 Sut gall addoli ar y cyd fod yn 'Gristonogol ar y cyfan' mewn ysgol sydd â chyfran uchel o Fwslemiaid?**

Dylai'r ysgol ystyried y ffaith fod ganddi gyfran uchel o Fwslemiaid. Dylai'r rhai sy'n arwain addoli ar y cyd gadw golwg ar yr amrywiaeth o gredoau sydd gan ddisgyblion yr ysgol. Dylai addoli ar y cyd roi'r cyfle i ddisgyblion addoli heb eu hannog i wneud rhywbeth sy'n mynd yn groes i ddysgeidiaeth eu crefydd. Er enghraifft, gall amserau gweddïo gael eu gadael yn ben agored er mwyn i ddisgyblion ddweud eu gweddïau eu hunain yn ddistaw.

**12 Mae ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd. A oes angen nodi hyn yn yr adroddiad arolygu?**

Nac oes. Ni ddylai arolygwyr sôn am ofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd oni bai bod yr ysgol yn **methu** â chydymffurfio â'r rhain.

## 13 A yw gwasanaeth boreol yn weithred o addoli ar y cyd?

Nid oes modd cyfnewid y ddau derm ac maent yn golygu pethau gwahanol. Caiff gwasanaeth boreol ei ddefnyddio yn aml i atgyfnerthu gwerthoedd a disgwyliadau, rhannu newyddion, dathlu cyflawniad, a derbyn cyflwyniadau gan ymwelwyr, er enghraifft.  Mae gweithred o addoli ar y cyd yn ofyniad statudol a gall ffurfio rhan bendant o wasanaeth boreol.  Fodd bynnag, gallai ysgol ddarparu gweithred o addoli ar y cyd ar wahân i wasanaeth boreol.  Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr sicrhau bod barnau yn cyfeirio'n briodol at addoli ar y cyd, gwasanaethau boreol, neu'r ddau.  Er enghraifft, gallai unrhyw un o'r barnau isod fod yn briodol:

(i) 'mae gweithredoedd o addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus';
(ii) 'mae gwasanaethau boreol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus';
(iii) 'mae gwasanaethau boreol, gan gynnwys gweithredoedd o addoli ar y cyd, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus'; neu
(iv) 'mae gwasanaethau boreol a gweithredoedd o addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus'.

This page is intentionally left blank

**<u>Ysgol Ffrwd Win</u>**

**<u>Hunan Arfarnu Addysg Grefyddol Tymor yr Haf 2013</u>**

Cyfnod Sylfaen - Da

CA 2 – Da

<u>Cyfnod Sylfaen</u>

<u>Meithrin a Derbyn</u>

Gall y rhan fwyaf o'r digyblion ymateb i gwestiynau penagored am eu teimladau a'u

profiadau ('beth?', 'ble?') yn dda. [D2]

Gall y rhan fwyaf gynnig eu syniadau eu hunain, gan wneud cysylltiadau/rhagfynegiadau ar adegau yn dda. [D2]

Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion drin ac archwilio arteffactau a dangos peth wybodaeth o bobl arbennig, llyfrau a mannau addoli yn dda. [D2]

Gall y rhan fwayf ymateb i storïau a digwyddiadau, yn y gorffennol a'r presennol yn dda. [D2]

Gall y rhan fwyaf ddechrau uniaethu â theimladau pobl eraill fel y cânt eu portreadu mewn storïau a digwyddiadau crefyddol yn y gorffennol a'r presennol yn dda. [D2]

Gall llawer o'r disgyblion gofio digwyddiadau o bwys yn y gorffennol yn da. [D3]

Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion gynnig syniadau ac arsylwadau annibynnol ynghylch pethau sy'n eu poeni yn eu bywydau yn dda. [D3]

Gall llawer o'r disgyblion gyfleu eu gwybodaeth gynyddol o storïau,digwyddiadau a gwrthrychau crefyddol ac yn dangos peth gwerthfawrogiad bod y rhain yn arbennig yn dda. [D3]

Bydd llawer o'r disgyblion yn fwyfwy ymwybodol a sensitif i anghenion eraill ac yn deall y dylai pethau byw gael eu trin gyda pharch a consyrn yn dda. [D3]

Gall tua hanner siarad am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd yn dda. [D4]

Gall llawer alw i gof ac yn ymateb i rai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt yn dda. [D4]

Mae lleiafrif yn ymwybodol i raddau fod yr agweddau hyn ar grefydd yn arbennig yn ddigonol. [D4]

Gall lleiafrif gydnabod bod eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau yn gallu bod yn debyg neu'n wahanol i rai pobl eraill yn ddigonol. [D4]

Gall lleiafrif ddefnyddio geirfa grefyddol syml mewn modd addas i fynegi eu syniadau ar adegau yn dda. [D4]

<u>Blwyddyn 1 a 2</u>

Gall y rhan fwyaf siarad am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd yn dda. [D4]

Gall llawer alw i gof ac yn ymateb i rai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a  ymchwilir iddynt yn dda. [D4]

Mae y mwyafrif yn ymwybodol i raddau fod yr agweddau hyn ar grefydd yn arbennig.[D4]

Gall y mwyafrif gydnabod bod eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau yn gallu bod yn debyg neu'n  wahanol i rai pobl eraill.[D4]

Gall bob un ddefnyddio geirfa grefyddol syml mewn modd addas i fynegi eu syniadau ar adegau yn dda. [D4]

Gall hanner ofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, ac awgrymu rhai atebion yn dda. [L2]

Gall hanner alw i gof a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol syfaenol a ymchwilir iddynt yn dda. [L2]

Gall hanner awgrymu mewn termau syml, pam y mae'r agweddau hyn ar grefydd yn bwysig i rai pobl yn dda. [L2]

Gall hanner siarad mewn termau syml am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain a rhai pobl eraill yn dda. [L2]

Gall y rhan fwyaf ddefnyddio gerifa grefyddol syml yn dda. [L2]

<u>CA 2</u>

<u>Blwyddyn 3 a 4</u>

Gall pob un plentyn ofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, ac awgrymu rhai atebion yn dda. [L2]

Gall pob un plentyn alw i gof a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol syfaenol a ymchwilir iddynt yn dda. [L2]

Gall pob un plentyn awgrymu mewn termau syml, pam y mae'r agweddau hyn ar grefydd yn bwysig i rai pobl yn dda. [L2]

Gall pob un plentyn siarad mewn termau syml am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain a rhai pobl eraill yn dda. [L2]

Gall pob un plentyn ddefnyddio gerifa grefyddol syml yn dda. [L2]

Gall llawer drafod cwestiynau sydd yn codi o'u profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas, ac agweddau ar grefydd gan gynnig eu barn eu hunain yn dda [L3]

Gall llawer ddisgrifio rhai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt yn dda [L3]

Gall llawer ddisgrifio sut mae rhai o'r agweddau hyn yn effeithio ar fywyd credinwyr yn dda [L3]

Gall llawer ddisgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain, cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill yn dda. [L3]

Gall llawer ddefnyddio geirfa crefyddol addas yn dda. [L3]

Gall lleiafrif drafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, yn byd o'u cwmpas a chrefydd yn dda. [L4]

Gall lleiafrif ddisgrifio a dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir iddynt yn dda. [L4]

<u>Blwyddyn 5 a 6</u>

Gall bron pob un drafod cwestiynau sydd yn codi o'u profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas, ac agweddau ar grefydd gan gynnig eu barn eu hunain yn dda iawn. [L3]

Gall bron pob un ddisgrifio rhai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt yn dda. [L3]

Gall bron pob un plentyn ddisgrifio sut mae rhai o'r agweddau hyn yn effeithio ar fywyd credinwyr yn dda. [L3]

Gall bron pob un ddisgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain, cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill yn dda iawn [L3]

Gall bron pob un ddefnyddio geirfa crefyddol addas yn dda. [L3]

Gall bron pob un drafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd yn dda. [L4]

Gall llawer ddisgrifio a dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir iddynt yn dda [L4]

Gall llawer roi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd yn bydd yr agweddau yma yn effeithio ar fywydau credinwyr ac yn dechrau nodi yr hyn sydd yn debyg ac yn wahanol mewn crefyddau yn dda [L4]

Gall y rhan fwyaf esbonio mewn termau syml sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn wahanol i rai pobl eraill yn dda. [L4]

Gall llawer ddefnyddio ystod o eirfa crefyddol yn addas yn dda. [L4]

Gall rai o’r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion a astudir, gan ddisgrifio'r effaith ar fywyd credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol ar draws y crefyddau yn dda. [L5]

Gall rhai esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw yn dda. [L5]

Gall rhai ddefnyddio ystod o eirfa crefyddol yn addas ond mae angen datblygu dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd. [L5]

Meysydd angen sylw

Angen gwneud mwy o waith ar **symbolau** crefyddol.

Wedi ei baratoi gan Mrs Nia Lloyd Thomas, Cydlynydd Addysg Grefyddol, Mehefin 2013.

# Arolygiad Statudol

# Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

# dan Adran 50

# Deddf Addysg 2005

# (a adnabyddir hefyd fel Arolygiad Gwella)

## Dogfen Model Hunan-Arfarnu

Fersiwn ddiwygiedig Medi 2013

Erys hunan-arfarnu arbenigrwydd ysgol eglwysig cyn bwysiced ag erioed ac anogir ysgolion i fod yn greadigol wrth iddynt geisio arddangos effaith eu cymeriad Cristnogol ar fywyd dyddiol yr ysgol. Gall cwblhau dogfen hunan-arfarnu fod o gymorth i athrawon, llywodraethwyr ac, wrth gwrs arolygwyr ysgolion

Mae ysgolion yn dod yn gynyddol greadigol yn eu defnydd o hunan-arfarnu yn defnyddio, er enghraifft, ffotograffau, mapiau meddwl a gwerthoedd Cristnogol, yn ychwanegol at ffurfiau mwy traddodiadol o arfarnu, i asesu effaith eu cymeriad ysgol. Mae'r ddogfen hon yn ceisio caniatáu i'r creadigrwydd hwnnw ffynnu drwy beidio â bod yn rhy ragnodol gan adael llawer i broffesiynolrwydd y pennaeth a'r staff.

Dylai prif ffocws arfarniad llwyddiannus fod bob amser ar effaith. Tra bo ysgolion yn gyfiawn falch a'r pethau y maent wedi eu darparu ar gyfer eu plant y gwahaniaeth a wneir gan y ddarpariaeth hon sydd o bwys mewn gwirionedd.

Ni fydd arolygwyr ysgolion eglwysig yn disgwyl i'r ddogfen hon tddweud holl hanes yr ysgol ac ni ddylai ysgolion deimlo dan bwysau i wneud hynny. Bydd yr arolygwr yn casglu ystod o dystiolaeth hyunan-arfarnu ar y safle a all gynnwys casgliadau neu ffotograffau gyda nodiadau; mapiau meddwl; llyfrau myfyrio dosbarth ayyb. Bydd hyn, ynghyd â thrafodaethau, arsylwadau a dogfennaeth arall yn galluogi i arolygwyr asesu cywirdeb arfarniadau'r ysgol ei hun.

Mae rhyddid i ysgolion ddyfeisio eu ffyrdd eu hunasn o grynhoi arfarnu arbenigrwydd yr ysgol. Cynigir y ddogfen hon gan y Gymdeithas Genedlaethol fel model y gellir ei defnyddio mewn cydweithrediad â Rhaglen Arfarnu Arolygiadau Gwella (Tachwedd 2013). Mae wedi ei threialu gan ysgolion a chafodd llawer o ysgolion hi'n ddefnyddiol

**Enw'r Ysgol: Ysgol Parc y Bont**

**URN: 6603034**

**Dyddiad yr arolygiad Adran 50 diwethaf:**

# CYD-DESTUN YR YSGOL

Mae hwn yn gyfle i chi ddarparu ychydig o bwyntiau bwled i esbonio cyd-destun eich ysgol.
*[Gallech ddymuno gwneud sylwadau ar: Statws yr ysgol (yn cynnwys unrhyw newid diweddar mewn statws a chytundeb ariannu) NOR; amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd; newidiadau staffio; disgyblion gydag anableddau/anawsterau dysgu ayyb]*

Mae Ysgol Gynradd Parc y Bont wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanddaniel Fab ar Ynys Môn. Mae'n gwasanaethu pentref Llanddaniel, plwyf Llanedwen, a'r ardaloedd gwledig o'u hamgylch. Mae'n ysgol sydd o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ynys Môn.

Mae 14 o ddisgyblion meithrin rhan-amser a 90 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed. Mae pedair dosbarth, sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau cymysg.

Daw tua 39% y disgyblion o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol.

Daw 48% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod o gefndir gwyn Prydeinig, gyda thua 6% yn dod o gefndiroedd ethnig gwahanol. Mae bron i 9% o ddisgyblion â hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae ychydig dros 20% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n agos i'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2008. Mae pennaeth mewn gofal yn yr ysgol ers Medi 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Parc Y Bont yn 2014-2015 yw £4,019. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,552 a'r lleiafswm yw £2,870. Mae Ysgol Parc Y Bont yn y 27ain safle o'r 48 ysgol gynradd ar Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD YR YSGOL

[Gallech ddymuno tynnu ar neu gynnwys datganiad o genhadaeth yr ysgol, datganiad o werthoedd neu amcanion yr ysgol fel y cytunwyd gan gymuned yr ysgol.]

Ffynnwn yng Ngoleuni Crist

"Rhoi'r cyfle gorau i bob disgybl lwyddo"

Y mae gweledigaeth yr ysgol wedi ei selio ar saith gwerth Cristnogol.
Gobaith, heddwch, dycnwch, doethineb, cyfeillgarwch, diolchgarwch, parch

- Pwysleisiwn bwysigrwydd y bartneriaeth driphlyg- disgybl, ysgol, cartref.

- Darparwn awyrgylch hapus, ysgogol lle caiff yr holl ddisgyblion, beth bynnag fo'u gallu a'u cefndir, y cyfle i ddatblygu i'w llawn botensial.

- Paratown ein disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n cymryd rhan weithredol o fewn eu cymuned ddwyieithog.

ETHOS YR YSGOL

Creu awyrgylch gorau posib o fewn yr adeilad i'w ddatblygu yn weithdy addysgol. Anelir at greu awyrgylch dawel, esthetig a gweithgar, gan ennyn parch ymhob aelod o'r sefydliad at eu lle gwaith. Sicrhau fod pob disgybl yn teimlo'n rhan o'r gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri yn ei bywyd a'i gwaith ac ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned eang ag iddi amrywiaeth ieithyddol a chymdeithasol. Gwneir y gorau bob amser i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo yn rhan o deulu'r ysgol. Ymfalchïwn yn y ffaith bod bron pob ymwelydd â'r ysgol yn cydnabod yr ymdeimlad o gyfeillgarwch a disgyblaeth sy'n bodoli yn yr ysgol a'r modd y bydd disgyblion newydd yn ymgartrefu yn fodlon a buan.

Ceir awyrgylch ddiwyd yn y dosbarthiadau a atgyfnerthir gan arddangosfeydd o waith y plant. Bydd hyn yn dangos parch at waith ac ymdrechion y disgyblion ac yn sicrhau amgylchedd symbylus a deniadol.

Mae athrawon yr ysgol yn ymroddedig i ddatblygiad ein disgyblion. Disgwylir safon uchel o ymddygiad ac ymroddiad ar bob achlysur.

Mae'r Cwricwlwm a gweithgareddau perthnasol eraill yn gymorth i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol foesol, diwylliannol a chymdeithasol.

# CRYNODEB

Mewn oddeutu 50 gair crynhowch arbenigrwydd ac effeithiolrwydd eich ysgol fel ysgol eglwysig.

| |
|---|
| Y mae Ysgol Parc y Bont yn gwasanaethu ei chymuned trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf o fewn cyd-destun cred ac ymarfer Cristnogol.<br>Mae ysgol Parc y Bont yn sefydliad hapus, gofalgar a diogel lle caiff Efengyl Iesu Grist ei feithrin a'i ddatblygu. |

Dyddiad: 27/11/14

| CYNNYDD MEWN MYND I'R AFAEL Â'R FFOCWS AR GYFER DATBLYGU YN YR AROLYGIAD BLAENOROL Gall ysgolion ddymuno ychwanegu pwyntiau pellach os bydd yn ofynnol | |
|---|---|
| Ffocws ar gyfer datblygu 1: Datblygu ffyrdd I ddynodi amser sanctaidd yn yr addoliad dosbarth | |
| Gweithredu a wnaed | Effaith |
| Addoliad dosbarth ddwy waith yr wythnos – cyfleoedd i fyfyrio<br>Gweddio yn reolaidd ar ddiwedd pob diwrnod ysgol | Plant yn gallu myfyrio'n effeithiol a thrafod cwestiynau mawr erbyn diwedd CA2.<br>Pob yn disgybl yn gallu adrodd gweddiau megis Gweddi'r Arglwydd a'r Gras. |
| Ffocws ar gyfer datblygu 2: Datblygu ymhellach mynegiant cymeriad Christnogol nodedig yr ysgol yn enwedig yn y dosbarthiadau. | |
| Gweithredu a wnaed | Effaith |
| Arddangosfeydd Christnogol i'w gweld yn yr ysgol ac o fewn dosbarthiadau.<br>Salmau o amgylch yr ysgol<br>Arddangosfa Beiblaidd yn y neuadd.<br>Ymwelwyr i gefnogi a chynnal gweithgareddau Christnogol yn y dosbarthiadau e.e gwersi Conformasiwn, Gwasanaeth Cristingl, Godly Play ac Agor y Llyfr | Plant hefo gwell ymwybyddiaeth o Gristnogaeth ac yn mwynhau sesiynau ymarferol. |
| Ffocws ar gyfer datblygu 3: Cwblhau gwelliannau a awgrymwyd yn nogfennaeth yr ysgol | |
| Gweithredu a wnaed | Effaith |
| Gwnaethpwyd y newidiadau i'r llawlyfr a rhannwyd copi newydd ymysg y rhieni. | Gwybodaeth gywir gyfredol gan rieni. |

| |
|---|
| CWESTIWN ALLWEDDOL 1 Pa mor dda y mae'r ysgol, drwy ei chymeriad Cristnogol arbennig, yn cyfarfod ag anghenion yr holl ddysgwyr? |
| HUNAN-ARFARNU'R YSGOL: Da |
| Tystiolaeth ysgol sy'n seiliedig ar ddeilliannau disgyblion<br>Gwnewch sylwadau ar:<br>• • Cyflawniad Dysgwyr<br>• • Gwerthoedd Cristnogol<br>• • Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol<br>• • Perthnasoedd<br>• • Dealltwriaeth o gymunedau amrywiol a pharch tuag atynt<br>• • Addysg Grefyddol<br>Cymerir yr awgrymiadau hyn o Raglen Arfarnu Gwella lle deuir o hyd i fanylion pellach<br>Rhesymau dros y radd (effaith a darpariaeth)<br>Gweledigaeth yr Ysgol yw ein bod yn darparu awyrgylch ac amodau lle y gall pob plentyn datblygu I'w llawn botensial. Mae canlyniadau system dracio (asesiadau athro, profion Cenedlaethol a mewnol) yn dangos fod pob plentyn yn gwneud cynnydd yn erbyn ei gyrhaeddiad blaenorol ac yn erbyn ei dargedau personol. Llwyddir i wneud hyn drwy adnabyddiaeth drylwyr a pherthynas ragorol gyda'r disgyblion. Y mae arsylwadau gwersi yn dangos fod gan y disgyblion agweddau positif at ddysgu.<br><br>Roedd presenoldeb y flwyddyn ysgol 2013-2014 yn 95% ar gyfer disgyblion o oed mynychu gorfodol. Mae pob disgybl yn cyrraedd yr Ysgol yn brydlon. Ni fu unrhyw waharddiadau ers blynyddoedd. Y mae'r rhieni yn ymrwymedig i gadw'r lefel presenoldeb yma. Pe cyfyd unrhyw broblemau nododd y rhan fwyaf o rieni y byddai rhywun o fewn yr ysgol ar gael i wrando arnyn nhw.<br><br>Ni fu unrhyw achos o ymateb hiliol nac o fwlio. Mae polisi cynnal ymddygiad a holl ethos yr Ysgol yn hyrwyddo brawdgarwch a chyd-fyw. Hyrwyddir parch at wahaniaethau a chydraddoldeb hiliol trwy ein gwaith ABCh a'n gwasanaethau.<br><br>Casglwyd arian tuag at Uganda fel rhan o apêl yr Esgobaeth. Daeth yr Esgob Andrew i gynnal gwasanaeth ar sut i fod yn aelod o dim Duw. Cafwyd cyflwyniad powerpoint ar sut y byddai'r arian yn cael ei wario yn Uganda.<br><br>Mae gan yr ysgol berthynas dda yr gyda'r Eglwys a allai gael ei gryfau gyda ymweliadau fwy cyson gan aelodau o'r Eglwys boed yn weinyddwyr neu'n wirfoddolwyr.<br><br>Rydym yn cefnogi elusen 'Teams 4 U' a rhagor o elusenau o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Bydd cyfran o arian ein gwasanaeth Nadolig yn mynd at elusen o ddewis y Cyngor Ysgol. Yn ystod tymor y gwanwyn/ haf byddwn yn cynnal un gweithgaredd "egnïol" lle mae'r plant yn cael eu noddi i godi arian. Drwy annog y disgyblion i gymryd rhan weithredol yn y broses o ddewis elusen a chodi nawdd y mae'n rhoi synnwyr iddynt o bwysigrwydd cefnogi a gofalu am eu cyd-ddyn, yn ogystal â datblygu synnwyr o empathi a brawdgarwch.<br><br>Mae'r Ysgol yn ailgylchu dillad drwy gynllun Mencap - "Tyddyn Môn." Y mae pwrpas deublyg i'r cynllun |

hwn rydym yn ailgylchu deunyddiau ac yn cefnogi elusen sy'n rhoi gwaith i oedolion ag anableddau ym Môn.

Mae'r ddarpariaeth ABaCh yn ogystal ag arferion beunyddiol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch tegwch a pharch yn dda.

Rhoddir pwyslais ar Gristnogaeth yn ein gwersi Addysg Grefyddol. Y mae'r disgyblion yn meddu ar wybodaeth o straeon o'r Beibl ac o neges Efengyl Iesu Grist. Cawn gymorth gan y Rheithor gyda rhai elfennau o'r gwaith e.e. bydd y Rheithor yn cynnal sesiynau "cwestiynau mawr" lle mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl rydd i ofyn cwestiynau dwys e.e. "a oes rhaid marw?" Bydd ciwrad y plwyf hefyd yn cynnal sesiynnau Goodly Play gyda disgyblion y CS y mae'r dull yma yn ennyn chwilfrydedd y disgyblion ac yn annog iddynt feddwl.
Mae'r Ysgol yn cynnwys elfennau trawsgwricwlaidd yn eu gwersi Addysg Grefyddol yn unol a gofynnion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Cryfderau Allweddol
Mae'r ddarpariaeth ABaCh yn ogystal ag arferion beunyddiol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch tegwch a pharch yn rhagorol.

Nododd bron pob rhiant yn yr holiadur Haf 2013 fod awyrgylch hapus yn yr Ysgol a bod gwerthoedd ac agwedd yr Ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn.

Dangosodd holiadur PASS 2014 fod bron pawb yn parchu ei gilydd yn Ysgol Parc y Bont. Dywedodd 100% o'r disgyblion fod athrawon a staff yr Ysgol yn gwrando arnynt ac yn eu helpu.

Y mae awyrgylch ac ymdeimlad cartrefol iawn yn Ysgol Parc y Bont ac mae ymwelwyr yn gyson yn cyfeirio at yr ymdeimlad yma. Mae agwedd ofalgar drwy'r ysgol gyda'r plant hynaf yn aml yn cynorthwyo'r plant ieuengaf ac ati. Mae'r ymdeimlad o gyd-weithio i lwyddo yn gryf yma.

Pwyntiau Datblygu
Fel rhan o adolygiad Cwricwlaidd 2014/2015 – rydym yn adolygu cwricwlwm addysg Grefyddol yr Ysgol.

CWESTIWN ALLWEDDOL 2 Beth yw effaith cydaddoli ar gymuned yr ysgol?

HUNAN-ARFARNU'R YSGOL: Da

Tystiolaeth ysgol sy'n seiliedig ar ddeilliannau disgyblion:

Gwnewch sylwadau ar:

- • Effaith cydaddoli
- • Nodweddion canolog cydaddoli
- • Natur ganolog addoli a myfyrio
- • Sail ddiwinyddol cydaddoli
- • Arweinyddiaeth a rheolaeth cydaddoli

Cymerir yr awgrymiadau hyn o Raglen Arfarnu Gwella lle deuir o hyd i fanylion pellach

Rhesymau dros y radd (effaith a darpariaeth)

Sicrheir fod y cyfnod o gyd-addoliad yn cwmpasu amrediad eang o themâu Cristnogol gyda phwyslais cryf ar werthoedd Cristnogol yr Ysgol a dathliadau Cristnogol. Y mae hyn yn sicrhau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ac arferion Cristnogol.

Mae cynllun cyd-addoli, wedi ei lunio i sicrhau parhad, amrywiaeth a ffocws clir ar gredoau a gwyliau Cristnogol. Ceir cyfle yn y gwasanaethau i fyfyrio, holi a thrafod materion sy'n codi yn yr ysgol neu y tu allan. Mae'r cyfnodau yma yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau, gwrando ar eraill ac i barchu amrywiaeth barn.

Drwy ein gwasanaethau, ein cynllun gwaith Addysg Grefyddol a'n cynllun AbaCh mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw, rannu teimladau ar y pryd a thrwy fyfyrio ar yr hyn a drafodwyd. Cant gyfle hefyd i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a myfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain.

Bydd y plant o Flwyddyn 1 hyd at Flwyddyn 6 yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gwasanaethau yn achlysurol.

Y mae dealltwriaeth y disgyblion o'r straeon ac o'u neges wedi cynyddu yn fawr yn sgil hyn.

Mae disgyblion yr Ysgol yn cyd-adrodd Gweddi'r Arglwydd yn y gwasanaeth boreol, yn cyd-adrodd gweddi cyn cinio a gweddi/ gras ar ddiwedd y dydd. Cynhelir gwasanaethau a gwersi i sicrhau fod disgyblion yn deall natur a phwrpas gweddi. Yn ystod y gwasanaethau caiff y disgyblion gyfle i fyfyrio a chyfle i ddweud gweddi bersonol. Y mae'r disgyblion yn cael cyfle i ysgrifennu gweddïau ar gyfer achlysuron penodol e.e. diolchgarwch, ac yn eu gwaith thematic yny dosbarthiadau. Drwy gyfrwng hyn oll sicrheir fod y cyfnod y gyd-addoliad yn gyfnod ysbrydol nodedig.

Cryfderau Allweddol

Gwerthoedd y plentyn wrth iddynt ymateb i gwestiynau (yn enwedig wrth iddynt ystyried safbwyntiau eraill, boed o'n crefydd, lliw croen, sefyllfaoedd, tlodi)

Pwyntiau datblygu

Disgyblion CA2 I gael cyfleon i baratoi a chyflwyno gwasanaethau eu hunain.

| CWESTIWN ALLWEDDOL 4<br>Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig? |
| --- |
| HUNAN-ARFARNU'R YSGOL: Da |

Tystiolaeth ysgol sy'n seiliedig ar ddeilliannau disgyblion:

Gwnewch sylwadau ar:

- Gweledigaeth Gristnogol
- Arfarnu a chynllunio strategol
- Arweinyddiaeth bellach ysgolion eglwysig
- Partneriaeth gyda chydranddalwyr allweddol

Cymerir yr awgrymiadau hyn o Raglen Hunan-Arfarnu Gwella lle deuir o hyd i fanylion pellach

Rhesymau dros y radd (effaith a darpariaeth)
Y mae gweledigaeth Gristnogol glir gan yr Ysgol. Lluniwyd a thrafodwyd y weledigaeth ar y cyd gyda'r holl randdeiliaid.Cenhelir gwasanaethau a gwersi penodol ar y gwerthoedd Cristnogol sydd yn sail i'r weledigaeth. Rhydd hyn gyfleoedd i'r disgyblion i drafod, i ymestyn dealltwriaeth ac i fynegi'r gwerthoedd mewn amrywiol ddulliau.

Y mae staff yr Ysgol a'r llywodraethwyr yn ymateb yn llawn i anghenion addysgol pob plentyn gan gynnwys y rhai sydd ar gofrestr ADY. Drwy wneud hyn sicrhawn ein bod yn cydnabod cymeriad Cristnogol yr Ysgol drwy greu ethos sydd yn cefnogi dysgu effeithiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarn gyda'r Eglwys a'r gymuned ehangach.

Cawsom ymweliadau gan yr Esgob Andy a gan yr Arch Ddiacon Paul Davies. Y mae hyn yn meithrin ymdeimlad o berthyn ymysg y disgyblion.

Y mae cyswllt agos rhwng yr Ysgol a'r Rheithor a'r ciwrad. Maent wedi gwasanaethau yn achlysurol yn yr Ysgol ac yn yr Eglwys. Cafwyd gwasanaeth priodas ffug yn yr Eglwys gyda disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn cymryd rhan. Cawsom gwasanaeth Nadolig yr Adran Iau yn y Gadeirlan ym Mangor.

Bob dwy flynedd cynhelir gwersi conffyrmasiwn yn yr ysgol ar gyfer disgyblion bl 5 a 6. Y mae pob disgybl yn dilyn y gwersi yn yr Ysgol. Canmolwyd y disgyblion gan y Rheithor a'r Ciwrad am eu haeddfedrwydd wrth drafod, ateb a chwestiynu.

Yn flynyddol bydd disgyblion blwyddyn 6 yn treulio'r diwrnod yn y Gadeirlan ym Mangor. Diwrnod i ddathlu diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd ac i edrych ymlaen at eu cam nesaf yw'r diwrnod. Y mae nifer o staff wedi cael cyfle i fynd gyda'r disgyblion i'r digwyddiad ac mae hyn wedi bod yn hyfforddiant ac yn ddatblygiad proffesiynol iddynt hwythau.

Y mae cyflenwad da a digonol o adnoddau Addysg grefyddol ar gael yn yr Ysgol. Pan fydd angen adnodd arbennig arnom y mae'r Rheithor/ aelodau o'r Eglwys yn cynorthwyo. E.e - Cynheliwyd gwasanaeth ysgol am y Beibl

Cryfderau Allweddol

Mae'r Pennaeth a'r staff yn modelu ac yn hyrwyddo ymddygiad a gwerthoedd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at greu ethos ysgol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Pwyntiau datblygu

Ymweld ag Ysgolion Eglwysig eraill i drafod arfer dda a chamau gweithredu/ datblygu pellach.

Prif ddigwyddiadau'r ysgol/Eglwys:

Gwaith elusenau – Teams 4 u, Plant Mewn Angen, Casglu arian i blant Uganda, Achub y Plant.
Cymunedol – Gwasanaeth Diolchgarwch, Cinio Nadolig i henoed y pentref, Canu carolau o amgylch y pentref, Côr yn canu (Cadeirlan, Canolfan garddio, Eglwys Clynnog Fawr)
Eraill – Ffug Briodas Bl1a2, Adran Iau yn cynnal Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan, Gersi Confirmasiwn, Gwersi/Gwasanaeth Cristingl, Open the book – Nativity, Ymweliad gan yr Arch Ddeacon, Ymweliad gan yr Esgob, Gwasanaeth ffarwelio Bl6 yn yr ysgol, Godly Play, Cwestiynau Mawr, Gwasanaeth a chinio Santes Dwynwen, Ysgol Masnach Deg.

| |
|---|
| **Arfarniad**: Addysg Grefyddol |
| **Enw'r ysgol**: Ysgol Henblas |
| **Cwestiwn Allweddol 1**: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol? |
| |
| **Cyfeiriadau**: Fframwaith ESTYN |
| |
| **Safonau**<br><br>Cyfnod Sylfaen<br>Ar draws y Cyfnod Sylfaen mae'r disgyblion yn datblygu'n dda o ran eu gallu i holi cwestiynau a thrafod pobl a chredoau. Gallant fynegi barn ar destunau yn ymwneud â'r hunan ac â phobl eraill megis tegwch ac annhegwch, parch a chyfrifoldeb.Fel rhan o'u hystadiaethau myfyriant ar drysorau personol a thrysorau bywyd a deallant eu cyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd.Trwy gysylltiadau yr ysgol â theulu yng ngwlad Kenya dysgant yn dda am ddiwylliant gwahanol ac am anghenion gwahanol gymdeithasau. Deallant trwy straeon am gymeriadau megis Mari Jones fel ag y mae crefydd yn gallu cael dylanwad ar fywydau. Erbyn diwedd y CS maent yn gwybod am bwysigrwydd y Beibl i Gristnogion a gallant ddwyn i gof straeon o'r Hen Destament a'r Testament Newydd.<br><br>Cyfnod Allweddol 2<br>Ar draws Cyfnod Allweddol 2 mae'r disgyblion yn datblygu yn dda o ran eu gallu i gwestiynu ac i fyfyrio ar faterion mwy-fwy heriol ac erbyn diwedd y CA gall rhai plant drin a thrafod materion megis ystyr bywyd a'r cread. Gall y plant mwyaf aeddfed fynegi barn ar agweddau ar grefydd gan gydnabod fod rhai cwestiynau na fedrwn eu hateb gyda phendantrwydd. Datblygant yn dda o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o arferion crefyddol megis bedydd a phriodas. Maent yn gwybod yn dda am y defnydd symbolaidd o ddŵr a goleuni o fewn crefydd ac erbyn diwedd y Cyfnod Allweddol, gall y rhan fwyaf esbonio'r symboliaeth. Gallant gynnal ymholiadau i faterion yn ymwneud â chrefydd megis ympryd a phererindod a dangosant werthfawrogiad o bwysigrwydd y rhain i gredinwyr. Dysgant yn dda bod gan pobl gredoau gwahanol a deallant yr angen i barchu safbwyntiau gwahanol. |
| **Materion I gael sylw:**<br>Cyfnod Sylfaen<br>Cynyddu'r cyfleoedd i blant ofyn ac archwilio cwestiynau mwy cymhleth<br>Cynllunio cyfleoedd i blant ddechrau cwestiynu stereoteipiau<br><br>Cyfnod Allweddol 2<br>Datblygu gallu plant i fod yn wrthrychol wrth ymdrin â materion crefyddol<br>Rhoi ystyriaeth pellach i ansawdd y cwestiynu ar draws y Cyfnod Allweddol i sicrhau fod y plant yn cael eu herio i feddwl a myfyrio |
| **Barn Cyffredinol**: Da |

| **Cwestiwn Allweddol 2**: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol? |
|---|
| |
| **Cyfeiriadau**: Fframwaith ESTYN |
| |
| **Y ddarpariaeth**<br>Cyfnod Sylfaen<br>Mae'r athrawon yn brofiadol ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ofynion y maes. Cynllunir cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu'r sgiliau a nodir yn y Fframwaith Enghreifftol o fewn astudiaethau thematig. Rhoddir cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion archwilio ystod o faterion sy'n ymwneud â phobl a chredoau trwy gyfrwng stori, drama, ymarferion chwarae rôl, chwarae rhydd a defnydd o bypedau.<br>Mae'r dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddathlu trwy gerdd a chân a thrwy greu arteffactau megis dreidel a thrwy goginio bwydydd megis crempogau a latkes.<br>Cyfoethogir y ddarpariaeth trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i siarad gyda'r plant e.e. rheithor i ddangos ei gwisg, chwiorydd yr Eglwys leol i wneud Christingle gyda'r plant.<br><br>Cyfnod Allweddol 2<br>Dros gyfnod y flwyddyn ysgol, neilltuïr o leiaf awr yr wythnos i Addysg Grefyddol. Mae'r rhaglenni gwaith yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu ac adeiladu ar eu profiadau yn y Cyfnod Sylfaen gan sicrhau cydbwysedd rhwng amrywiol ofynion y Fframwaith. Cyfoethogir y ddarpariaeth trwy drefnu ymweliadau ag addoldai a thrwy wahodd siaradwyr i mewn i'r ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o gyfeirlyfrau, o lyfrau stori, Cd Romau, y We ac arteffactau i gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Cynllunir cyfleoedd i ddisgyblion gynnal ymholiadau ar faterion crefyddol ac i ddod i farn ar sail y wybodaeth a gesglir. Yn yr achosion gorau mae'r addysgu yn fywiog gyda'r dysgwyr yn weithredol, yn cyd-drafod, yn ystyried ac yn mynegi barn ar sail gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad. Yn yr achosion hyn mae'r tasgau a osodir yn herio pob plentyn. |
| **Materion i gael sylw**:<br>Cyfnod Sylfaen<br>Ychwanegu at y casglaid o arteffactau<br>Gwneud mwy o ddefnydd o wefanau / CDRomau i gefnogi'r dysgu<br><br>Cyfnod Allweddol 2<br>Rhannu'r arferion gorau o ran addysgu a dysgu yn y maes.<br>Cynllunio cyfleoedd pellach ar draws y Cyfnod Allweddol i'r plant drafod materion moesol a chrefyddolymysg ei gilydd a chyda phobl eraill. |
| **Barn Cyffredinol**: Da |

| **Addoli ar y Cyd** |
|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** Ydy |
| **Cyfeiriadau**: Fframwaith ESTYN |
| |
| **Nodweddion y cyfnodau addoli**<br><br>Cynhelir cyfnodau o Addoli ar y Cyd yn ddyddiol ar lefel dosbarth neu ysgol gyfan. Rhoddir yr hawl I rieni esgusodi eu plant o'r addoliad.<br><br>Yn ystod cyfnod o addoliad mae cyfle:<br>• I ystyried, myfyrio ac ymateb i gyflwyniad gan aelod o staff neu siaradwr arall<br>• I gyd-ganu<br>• I weddïo – yn dawel neu trwy adrodd<br>• I ddarllen<br>• I rannu profiad<br><br>Mae'r cynnwys yn amrywiol ac yn gallu cynnwys stori, sgwrs, symybliad gweledol neu gerddorol. Archwilir materion moesol ac ysbrydol a manteisir ar gyfleoedd i gefnogi agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig. |
| **Materion I gael sylw**:<br>• Creu naws mwy addolgar ym mhob gwasanaeth<br>• Monitro fod gwasanaethau dosbarth yn cydymffurfio â'r rheoliadau |
| **Barn Cyffredinol**: Da |

Janette Pritchard

10.2.15

This page is intentionally left blank

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:**

**Enw (Clerc CYSAG): Jane Marr**

**Cyfeiriad: Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Ysgol Gymuned Carreglefn**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

**Cyfnod Sylfaen**

Mae'r dysgwyr yn ymwybodol o rai o brif grefyddau'r byd. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd arweinwyr crefyddol yn y gymdeithas leol. Rhoddir cyfleoedd i'r dysgwyr drafod digwyddiadau arwyddocaol a pherthnasol yn y gwasanaethau. Erbyn diwedd blwyddyn 2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r hen destament a'r testament newydd. Gallant adrodd sawl un o'r straeon. Gall y rhan fwyaf ail ysgrifennu rhai o'r straeon hyn yn syml gan fynegi barn ar wers/neges y stori/ddameg. Mae'r dysgwyr yn cael cyfleoedd i ymweld â mannau addoli lleol yn rheolaidd e.e Capel Bethlehem, Carreglefn. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn medru disgrifio prif nodweddion capel ac eglwys. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn ymwybodol o brif wyliau a dathliadau Cristnogol ac yn gallu eu trafod yn syml.

**Cyfnod Allweddol 2**

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn adnabod prif nodweddion a gwrthrychau addoli, y defnydd a wneir ohonynt a phwysigrwydd mannau pererindod o fewn amryw o grefyddau'r byd. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn medru disgrifio nodweddion dathliadau a defodau crefyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwybod am waith arweinwyr crefyddol ac am straeon o lyfrau sanctaidd (amryw o grefyddau) ac am hanesion am fywyd Iesu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o reolau Cristnogaeth. Mae ganddynt afael dda iawn o'r hyn sydd yn iawn ac yr hyn sydd yn foesol anghywir. Mae'r holl ddisgyblion yn deall pwysigrwydd o berthyn i'w cymuned ac yn deall eu rhan yn y gymuned leol. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o barch tuag at eraill a'u hamgylchedd. Mae llawer yn  dechrau dod i ddeall nad oes un ateb yn unig i gwestiynau mawr bywyd. Gwneir defnydd dda gan y rhan fwyaf o'r disgyblion o TGCh a llyfrau gwybodaeth i gywain am arferion gwahanol grefyddau. Mae llawer o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd prif ddathliadau llawer o'r crefyddau. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn ymwybodol o brif reolau Cristnogaeth a'u heffaith ar ffordd o fyw. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd niferus i glywed straeon o'r Beibl a chyfle i'w trafod yn y gwasanaethau. Mae llawer o'r dysgwyr yn sylweddoli effaith y capel ar y gymuned leol. Mae'r Parchedig Emlyn Richards yn ymweld yn achlysurol i drafod ei waith ac i siarad gyda'r plant. Mae'r dysgwyr yn ymwybodol eu bod nhw, ar y cyfan yn blant ffodus. Maent yn hoff o godi arian ar gyfer elusennau ac yn sylweddoli pwysigrwydd cyfrannu i bobl/mudiadau sy'n helpu pobl llai ffodus na nhw eu hunain. Mae'r Cyngor Ysgol yn noddi plentyn yn Sankwia, Y Gambia i dderbyn addysg yn yr ysgol.

**Materion i gael sylw**

**Cyfnod Sylfaen**

Angen datblygu'r gwaith ar grefyddau'r byd ymhellach. Angen i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o rhai o'r straeon sy'n perthyn i'r crefyddau hynny ac o nodweddion y mannau addoli.

**Cyfnod Allweddol 2**

Mae angen ychwanegu at yr adnoddau/arteffactau i gyfoethogi'r gwersi
Mae angen trefnu ymweliadau i fannau addoli crefyddau eraill e.e Mosg Bangor
Mae angen gwahodd mwy o siaradwyr i'r ysgol e.e unigolion o fudiadau fel Y Samariaid, pobl o grefyddau eraill etc

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

**Cyfnod Sylfaen**

Mae gweithgareddau Addysg Grefyddol y Cyfnod Sylfaen yn cyd-fynd a gofynion y Fframwaith Enghreifftiol Celedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytun Lleol. Mae'r cynlluniau gwaith yn datblygu fesul tymor oherwydd natur y Cyfnod Sylfaen, ac mae'r gweithgareddau yn codi'n naturiol o'r thema a ddewisir gan y plant e.e crefydd yn China pan yn gwneud thema Y Flwyddyn Newydd Chiniaidd, seintiau ac arweinwyr crefyddol pan yn gwneud thema Dwynwen a Chariad, gwaith ar Melangell, Santes Anifeiliaid pan yn gwneud thema Anifeiliaid, y capel lleol, bedydd a phriodas pan yn gwneud thema Yr Ardal leol a.y.y.b. Bydd llawer o weithgareddau y Cyfnod Sylfaen yn adeiladu ar eu profiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol.

**Cyfnod Allweddol 2**

Mae cynlluniau gwaith y dosbarth Iau yn cyd-fynd â gofynion y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytun Lleol. Rhoddir awr yr wythnos i wersi Addysg Grefyddol yn y dosbarth Iau, hynny ddim yn cynnwys gwasanaethau.

Nid oes gan staff yr ysgol gymhwyster e.e lefel A, gradd mewn Addysg Grefyddol, ond maent wedi derbyn hyfforddiant fel rhan o'u cyrsiau hyfforddiant cychwynol. Mae cyd-lynydd i'r pwnc yn yr ysgol sydd yn gyfrifol am H/A. Bydd y staff yn mynychu hyfforddiant sirol er mwyn cael gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf ym myd Addysg Grefyddol, ac hefyd yn ymgynghori gyda staff yr ysgol uwchradd ar brydiau. Bydd staff hefyd yn darllen 'Newyddion Addysg Grefyddol' fel ffynhonell i gael gwybodaeth am ddatblygiadau. Mae rhai arteffactau ar gael yn yr ysgol, ond mae angen pwrcasu ymhellach neu gael benthyg gan yr uwchradd i ddatblygu'r gwersi ymhellach.

**Materion i gael sylw**

Pwrcasu mwy o adnoddau i ddatblygu'r pwnc ymhellach.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** ✓ | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Cynhelir 3 gwasanaeth ysgol gyfan yr wythnos ac addoliad byr yn y dosbarthiadau 2 ddiwrnod. Hyd y gwasanaethau ysgol gyfan yw tua chwarter awr.
- Ceir cyfuniad o wasanaethau yn seiliedig ar straeon beiblaidd a gwasanaethau gyda straeon moesol
- Rhoddir cyfleoedd i drafod ac i'r plant ofyn cwestiynau yn y gwasanaethau
- Bydd y plant yn mynychu ac yn cymryd rhan yn flynyddol yng ngwasanaeth cofio y gymuned.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae angen pwrcasu mwy o lyfrau/deunydd ar gyfer paratoi gwasanaethau, ac efallai dod a TGCh i fewn i'r gwasanaethau drwy ddefnydd o Power Point etc
- Er bod plant yn cymryd rhan yn y gwasanaethau yn achlysurol, mae angen rhoi cyfle iddynt wneud hyn yn amlach.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: A. Rhys Hearn (Pennaeth) Arwel Rhys Hearn

Dydddiad: 22/5/15

# 1. How can members contribute to the work of SACREs?

## *Sut all aelodau gyfrannu at waith y CYSAGau?*

- Share good practice
- Visit school
- Teach others about your faith
- Look for funding
- Respond to reports
- Promote dialogue
- Encourage other

- *Rhannu arferion da*
- *Ymweld ag ysgolion*
- *Addysgu eraill am eich ffydd*
- *Chwilio am gyllid*
- *Ymateb i adroddiadau*
- *Hybu deialog*
- *Denu eraill*



## 2. How can we ensure regular attendance from all groups?

***Sut allwn ni sicrhau presenoldeb rheolaidd gan bob grwp?***



- Variety of presentations
- Variety of venues and times
- Feedback from representatives, “what is your school, faith group, community doing?”

- *Amrywiaeth o gyflwyniadau*
- *Amrywiaeth o leoliadau ac amseroedd*
- *Mewnbwn gan gynrychiolwyr, “beth mae eich ysgol, grwp ffydd, cymuned yn ei wneud?*



## 3. How could you persuade people to become a SACRE member?

***Sut allech chi berswadio pobl i ddod yn aelod o GYSAG?***



- Presentations to faith groups
- Presentations to councillors
- Newsletters
- Opportunities: professional development, contribute to the Agreed Syllabus or support materials
- Supply cover

- *Cyflwyniadau i grwpiau ffydd*
- *Cyflwyniadau i gynghorwyr*
- *Cylchlythyron*
- *Cyfleoedd: datblygiad proffesiynol, cyfrannu at y Maes Llafur Cytun neu'r adnoddau cefnogol*
- *Arian llanw*



# 4. How can we monitor RE and collective worship?

## *Sut allwn ni fonitro Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd?*



- Visits to schools
- Scrutinising self-evaluation reports
- Scrutinising ESTYN reports
- Review results
- Presentations by RE departments
- Questionnaires
- Training for members (REQM) materials
- Submit questions to primary and secondary heads meetings

- *Ymweld ag ysgolion*
- *Craffu ar adroddiadau hunan-arfarnu*
- *Craffu ar adroddiadau ESTYN*
- *Craffu ar ganlyniadau*
- *Cyflwyniadau gan adrannau AG*
- *Holiaduron*
- *Hyfforddiant i aelodau i ddefnyddio deunyddiau'r Marc Ansawdd AG*
- *Cyflwyno cwestiynau i gyfarfodydd penaethi… cynradd ac uwchradd…*



# 5. How can we support schools to deliver good RE and CW?

## *Sut allwn ni roi cymorth i ysgolion gyflwyno AG ac AyCda?*

- Sharing good practice: newsletter, website
- Youth SACRE's
- Meetings held in schools
- Minutes support excellent practice
- Advice materials
- Forums
- Share support offered by partners

- *Rhannu arferion da: cylchlythyr, gwefan*
- *CYSAG Ieuenctid*
- *Cyfarfod mewn ysgol*
- *Cofnodion yn nodi arferion rhagorol*
- *Canllawiau*
- *Fforymau*
- *Rhannu'r gefnogaeth a gynigir gan bartneriaid*



# 6. How can we ensure that LAs support SACREs

# *Sut allwn ni sicrhau bod ALl yn cefnogi CYSAGau?*

Tudalen 60

- Meetings with directors
- Reminding LA of statutory Circular 10/94
- Squeaky wheel gets the oil
- Councillors on board

- *Cyfarfod gyda'r cyfarwyddwyr*
- *Atgoffa'r ALl o Gylchlythyr statudol 10/94*
- *Codi twrw*
- *Sicrhau cefnogaeth cynghorywr*

